Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Byddwn yn Deg

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

www.npt.gov.uk

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Pwy ydym ni | 2 |
| Strwythur y Cyngor | 3 |
| Y Cyd-destun Deddfwriaethol a Strategol | 4 |
| Asesiad Effaith | 8 |
| Hyfforddiant | 9 |
| Ein Hamcanion Cydraddoldeb | 9 |
| Tystiolaeth a data | 12 |
| Monitro ac Adolygu | 16 |
| Cydraddoldebau a chaffael | 16 |
| Camau Gweithredu i gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb | 17 |


Os bydd angen yr wybodaeth hon arnoch chi mewn print mwy neu fformat arall, cysylltwch â'r Tîm Polisi Corfforaethol ar **07805 771506** neu **e-bostiwch:** **polisi@npt.gov.uk**



# Cyflwyniad

Croeso i Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Castell-nedd Port Talbot (CCS) 2024-2028.

Mae cynghorau lleol yn cyffwrdd â bywydau pobl mewn llawer iawn o ffyrdd, gan gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr i'n cymunedau, a hynny'n feunyddiol. Er mwyn gwneud hynny'n effeithiol, mae rhaid i ni ystyried a darparu ar gyfer yr ystod eang o anghenion a dyheadau sydd gan bawb sy'n byw ac yn gweithio yn ein bwrdeistref sirol.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar Gynghorau yng Nghymru i ddatblygu amcanion cydraddoldeb a chynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae ein cynllun wedi cael ei gynhyrchu i fodloni'r gofynion hyn, ond yn bwysicach i fyfyrio ar ein penderfyniad i hybu cyfle cyfartal gwirioneddol, mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl, a chreu Castell-nedd Port Talbot sy'n decach ac yn fwy cyfartal.

Bydd y cynllun hwn, y pedwerydd o'i fath a gynhyrchwyd gan y cyngor, yn adeiladu ar yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni eisoes, ac yn cyflwyno'n hamcanion cydraddoldeb ar gyfer y pedair blynedd nesaf, ynghyd â chynllun gweithredu ar gyfer eu cyflawni.

Fel un o'r cyflogwyr mwyaf yn y fwrdeistref sirol, mae hybu cydraddoldeb yn cychwyn gyda'n gweithlu ein hunain. Rydym wedi gwneud ymrwymiad gwirioneddol i gyfle cyfartal, a'n nod yw sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu, felly mae amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant yn bethau rydyn ni'n eu cymryd o ddifri calon er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau.

Yr enw rydyn ni wedi'i roi ar ein cynllun yw 'Byddwn yn deg', gan fod hyn yn rhywbeth na all y cyngor ei wneud ar ei ben ei hun. Mae 'Byddwn yn deg' yn wahoddiad i bawb yn y fwrdeistref sirol ymuno â ni, yn bartneriaid, trigolion a rhanddeiliaid eraill er mwyn cydweithio i wneud CnPT yn lle tecach a mwy cyfartal i fyw

Mae cyhoeddi'r Cynllun yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes.

Rydym yn croesawu barn a sylwadau pobl ar hyd oes y CCS, a byddwn yn eu hystyried, ynghyd â'r rhai a dderbyniwyd trwy weithgareddau ymgysylltu eraill, wrth adolygu ein hamcanion cydraddoldeb a'r camau gweithredu cysylltiedig.

Rydym yn falch o gyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2024-2028



Karen Jones
Prif Weithredwr, Cyngor Castell-nedd Port Talbot



Councillor Steve Hunt
Arweinydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot

# Pwy ydym ni

Mae Castell-nedd Port Talbot ar yr arfordir rhwng Abertawe i'r gorllewin a Phen-y-bont ar Ogwr i'r dwyrain. Mae Castell-nedd Port Talbot hefyd yn rhannu ffiniau gyda Sir Gaerfyrddin, Powys, Rhondda Cynon Taf a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cwmpasu mwy na 44,217 o hectarau, a rhennir nodweddion ffisegol y Fwrdeistref Sirol yn fras yn llain arfordirol a Chymoedd.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gastell-nedd Port Talbot boblogaeth breswyl o 142,300 ac mae yn safle 11 o ran dwysedd poblogaeth uchaf y 22 o awdurdodau lleol ar draws Cymru. Mae hyn yn cynnwys 30,131 o bobl dros 65 oed.

Nododd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019 fod 14% o'r LSOAs (ardaloedd â phoblogaeth rhwng 1000 a 3000) yng Nghastell-nedd Port Talbot yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Lluniwyd WIMD i nodi'r ardaloedd bychain hynny lle ceir y crynodiad uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd; incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, tai, diogelwch cymunedol ac amgylchedd ffisegol.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae grwpiau du ac ethnig lleiafrifol yn cyfrif am 3.4% o'r boblogaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot o gymharu â 6.2% yng Nghymru.

Mae data o'n hysgolion yn dangos bod cyfran y disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol (nid gwyn Prydeinig) yn 8.8% o gymharu â chanran Cymru gyfan o 13.6%.

Yng Nghyfrifiad 2021, o'r bobl hynny oedd yn nodi crefydd, ffydd neu gred, disgrifiodd 42.15% eu hunain fel Cristnogion, 0.75% fel Mwslimiaid, 0.28% fel Hindwiaid, 0.26% fel Bwdhiaid, 0.11% fel Siciaid, 0.02% fel Iddewon a nododd 0.44% 'crefydd arall'. Nododd 49.8% o bobl nad oedd ganddyn nhw grefydd, ac nid atebodd 6.12% y cwestiwn yn y cyfrifiad.

Mae gan Gastell-nedd Port Talbot un o'r Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr mwyaf yng Nghymru, gyda phoblogaeth o 212 (yn ôl Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr CnPT – 2022). Mae tri safle awdurdodedig i garafanau sipsiwn a theithwyr yn y fwrdeistref sirol, gyda 67 o leiniau.

Ar adeg y Cyfrifiad, 2021, roedd dros dri chwarter (76.4%) o'r oedolion oedd yn byw yng Nghastell-nedd Port Talbot o'r farn bod eu hiechyd yn dda/dda iawn, sydd fymryn yn is na chyfartaledd Cymru o 79.1%. Roedd 8.5% o'r oedolion yn yr arolwg yn teimlo bod eu hiechyd yn wael/wael iawn, sydd fymryn yn uwch na'r cyfartaledd ar draws Cymru (6.7%), gyda 15.1% â safon deg o iechyd (cyfartaledd Cymru yw 14.1%). Nododd 24.7% o'n trigolion fod eu hanabledd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, tra bod cyfran y gofal di-dâl (sy'n amrywio o 1 i fwy na 50 o oriau yr wythnos) yng Nghastell-nedd Port Talbot yn 13.95%.

# Strwythur y Cyngor

Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae yna 34 o wardiau etholiadol sy'n darparu 60 o aelodau etholedig, ac rydym ni'n defnyddio model cabinet o lywodraeth leol, gydag Arweinydd sy'n cael cefnogaeth naw aelod cabinet (y Weithrediaeth). Gwneir yr holl benderfyniadau gweithredol trwy'r Cabinet. Mae Pwyllgorau Craffu yn monitro perfformiad a phenderfyniadau'r Weithrediaeth ac yn cyflwyno adroddiadau ac argymhellion sy'n cynghori'r Weithrediaeth a'r cyngor cyfan ynghylch polisïau, y gyllideb a chyflwyno gwasanaethau.

Mae pob Aelod Cabinet yn gyfrifol am ystod eang o faterion. Yr aelod cabinet ar gyfer Cyllid, Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfiawnder Cymdeithasol yw ein Hyrwyddwr Cydraddoldeb dynodedig, a'r aelod cabinet ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol oedolion a iechyd yw ein Hyrwyddwr dynodedig ar gyfer Pobl Hŷn. Mae gan aelodau eraill o'r cabinet bortffolios sy'n gysylltiedig ag agenda cydraddoldeb, er enghraifft, plant, addysg a diogelwch cymunedol.

Ategir y pwysigrwydd a roddwn i gydraddoldeb gan y ffaith bod polisïau a chynlluniau cysylltiedig â chydraddoldeb a'r Gymraeg ymhlith y nifer cyfyngedig y mae angen i'r Cyngor llawn eu cymeradwyo.

Mae grŵp o uwchreolwyr sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn cadw golwg ar reolaeth strategol busnes y cyngor. Mae gan Benaethiaid Gwasanaeth gyfrifoldeb gweithredol unigol am wasanaethau, yn ogystal â darparu cefnogaeth strategol i'r uwchreolwyr.

Ar adeg ysgrifennu, rydyn ni wrthi'n adolygu ac yn diwygio ein trefniadau cadw golwg ar gydraddoldeb ar lefel gwasanaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau mor effeithiol â phosibl; manylir ar y trefniadau diwygiedig hyn yn Adroddiad Blynyddol 2024-2025.



# Y Cyd-destun Deddfwriaethol a Strategol

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 â deddfwriaeth flaenorol yn erbyn gwahaniaethu ynghyd a'i disodli, gan symleiddio a chryfhau'r gyfraith, dileu anghysondebau, a sicrhau ei bod yn haws i bawb ddeall. Trwy weithredu'r Ddeddf, ein nod yw gweithio tuag at greu cymdeithas decach, gwella gwasanaethau cyhoeddus, rhoi sylw i anghydraddoldeb sydd wedi gwreiddio, ac yn y pen draw, gwella bywydau pobl.

O dan y Ddeddf mae'n ofynnol bod y cyngor, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill, yn rhoi sylw dyledus i'r angen am ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, gan hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng ac ymhlith pobl o wahanol grwpiau gwarchodedig (yr enw ar hyn yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus).
.

Dyma'r grwpiau, neu'r nodweddion, gwarchodedig

- oed
- ailbennu rhywedd
- rhyw
- hil
- anabledd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- cyfeiriadedd rhywiol
- crefydd a chred
- priodas a phartneriaeth sifil (ond yng nghyswllt yr angen am ddileu gwahaniaethu yn unig)

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

Yng Nghymru, cyflwynwyd dyletswyddau penodol i'n helpu i gyflawni'r ddyletswydd sector cyhoeddus, ac mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) a datblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb.

**Mesur y Gymraeg 2011**

Rhoddodd y Mesur statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, gan sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg, creu gweithdrefn ar gyfer cyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith, a darparu ynghylch hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ymhlith darpariaethau eraill. Rôl Comisiynydd y Gymraeg yw hyrwyddo'r Gymraeg, a gwella'r cyfleoedd sydd gan bobl i'w defnyddio, trwy bwysleisio statws swyddogol yr iaith yng Nghymru, a phennu safonau ar gyfer sefydliadau.

# Y Cyd-destun Deddfwriaethol a Strategol *(parhad...)*

**Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**

Mae'r Rheoliadau hyn, a osodwyd ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru, yn cynnwys ystod o safonau ymddygiad ynghylch y Gymraeg.

Grwpiwyd y safonau fel a ganlyn:

- cyflwyno gwasanaeth
- llunio polisi
- gweithrediadol
- hyrwyddo
- cadw cofnodion

Adroddir yn fanwl ar sut rydym wedi cydymffurfio â safonau'r Gymraeg bob blwyddyn, yn unol â'r Rheoliadau hyn. Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-2023, y diweddaraf, ochr yn ochr â gwybodaeth arall berthnasol ar dudalennau ein Gwefan sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gosod dyletswyddau ar y cyngor i bennu amcanion llesiant a gweithio mewn modd cynaliadwy i sicrhau Cymru decach a mwy cyfartal. Mae'r cyngor yn ddiweddar wedi diwygio'i offeryn ar gyfer asesiadau effaith integredig i helpu swyddogion i gydblethu'r holl ddyletswyddau sy'n codi mewn perthynas â chydraddoldeb.

**Dyletswydd Sosio-Economaidd**

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y ddyletswydd hon ar 31 Mawrth 2021 ac mae'n ofynnol ein bod ni, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill, yn ystyried effaith penderfyniadau polisi ar sail sosio-economaidd yn fwy ffurfiol nag a wnaed yn flaenorol. Yn barod ar gyfer cyflwyno'r ddyletswydd, diwygiwyd yr offeryn rydyn ni'n ei ddefnyddio ar gyfer Asesiadau Effaith Integredig i gynnwys adran benodol yn ystyried anghydraddoldeb sosio-economaidd yn ein hardal. Yn wyneb yr argyfwng costau byw, sy'n parhau ac yn dyfnhau, a'r sefyllfa economaidd yn genedlaethol ac yn fyd-eang, ni fu ystyried anghydraddoldeb sosio-economaidd a mynd i'r afael ag ef erioed mor hanfodol.

**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg - diweddariad**

Rydyn ni'n cydnabod bod iaith a diwylliant yn rhannau hanfodol o hunaniaeth unigolyn, ac felly rydym wedi ymrwymo i hybu a dathlu iaith a diwylliant Cymru mewn modd rhagweithiol, cynhwysol ar draws ein holl ysgolion.

Conglfaen y weledigaeth hon yw Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) 2022-2032, sy'n manylu ar sut rydym yn bwriadu cefnogi a datblygu ymhellach addysg Gymraeg mewn ysgolion ac yn y cymunedau ehangach, a sut gallwn ni gynllunio ar gyfer twf yn y dyfodol.

# Y Cyd-destun Deddfwriaethol a Strategol *(parhad...)*

**Cyfamod Lluoedd Arfog CnPT**

Rydyn ni'n ymwybodol iawn y gall cyn-filwyr y Lluoedd Arfog, yn rhinwedd eu hymwneud â'r gwasanaeth, brofi iechyd meddwl gwael a/neu anableddau corfforol. Mae eu profiadau nid yn unig yn effeithio ar yr unigolyn, ond hefyd yn effeithio ar eu teulu a'u ffrindiau, gan roi perthnasoedd dan straen, achosi trallod, ac weithiau arwain at sefyllfaoedd mwy critigol fyth i bawb dan sylw. Nid yw'r straen ar fywyd teuluol wedi'i gyfyngu i deuluoedd cyn-filwyr; fe all gael ei brofi gan deuluoedd y rhai sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog ar hyn o bryd.

Fel rhan o'n hymrwymiad i'r gwaith hwn, rydym wedi llofnodi Cyfamod Lluoedd Arfog Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac rydym yn annog ein partneriaid strategol i wneud hynny hefyd. Yn lleol, rydym wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog gyda chymuned y lluoedd arfog yn y fwrdeistref sirol a'n partneriaid strategol lleol. Mae'r rhai sy'n llofnodi'r Cyfamod yn cytuno i helpu i gefnogi cymuned y lluoedd arfog yn lleol, a'i gwneud yn haws i bersonél gwasanaeth, teuluoedd a chyn-filwyr gael mynediad at y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael. Ar ben hynny, anogir cymuned y lluoedd arfog i wneud cymaint â phosibl i gefnogi'r gymuned a hybu gweithgaredd sy'n integreiddio cymuned y lluoedd â bywyd sifil.

Rydym wedi cyflawni dyfarniad arian o dan y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr, tra bod dwy o'n hysgolion, Ysgol Gynradd Baglan ac Ysgol Cwm Brombil, wedi derbyn statws aur ac efydd yn y drefn honno yng nghynllun Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog yng Nghymru, i gydnabod y gefnogaeth a roddir i blant y lluoedd yn yr ysgol trwy wreiddio arfer da yn y drefn feunyddiol a chreu amgylchedd cadarnhaol.

Rydyn ni'n cynnig cynllun gwarantu cyfweliad i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog (sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol), sy'n rhan o'n proses ymgeisio, fel bod rheolwyr sy'n recriwtio yn derbyn cyfarwyddyd clir ynghylch unrhyw ymgeiswyr cymwys. Rydyn ni'n rhoi arweiniad ar y broses hon fel rhan o'n hyfforddiant recriwtio a dethol i reolwyr. Rydyn ni'n dal i ddarparu rhestr wythnosol o'r swyddi gwag sydd ar gael i'r Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd (darparwr swyddogol y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer cefnogi'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog ac yn pontio o fywyd milwrol i fywyd sifil).

Rydyn ni'n ymwybodol o'n cyfrifoldeb i roi 'sylw dyledus' er mwyn sicrhau nad yw aelodau o gymuned y lluoedd arfog yn cael eu rhoi o dan anfantais mewn perthynas â iechyd, addysg a thai, ac rydym wedi sicrhau bod staff yn mynychu sesiynau ar-lein y Weinyddiaeth Amddiffyn ym mis Mai 2023, oedd yn darparu rhagor o wybodaeth am y gofyniad newydd hwn.



# Y Cyd-destun Deddfwriaethol a Strategol *(parhad…)*

**Cynhwysiad Digidol**

Mae ein Strategaeth newydd ar Ddata Digidol a Thechnoleg (DDaT) yn ceisio adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan ein strategaeth ddigidol flaenorol (Clyfar a Chysylltiedig 2018 - 2022). Mae'n cyflwyno ein gweledigaeth strategol, ein nodau a'n themâu cyflawni, gan ddangos sut byddwn ni'n cofleidio dulliau gweithredu newydd a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg fel bod ein defnyddwyr yn cael y cynhyrchion a'r gwasanaethau sy'n cynnig y gwerth gorau ac yn troi o gwmpas y defnyddiwr.

Mae Data Digidol a Thechnoleg (DDaT) yn hanfodol i gyflwyno gwasanaethau'r cyngor yn llwyddiannus. Rydym wedi ymrwymo i fabwysiadu'r DDaT gorau er mwyn trawsffurfio'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu i'n trigolion, ein busnesau, ein haelodau etholedig, ein staff a'n hymwelwyr. Fodd bynnag, rydyn ni'n dal yn gwbl ymroddedig i helpu'r rhai o blith ein pobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol i gael mynediad at fanteision bod ar-lein. Rydyn ni'n deall bod ystod eang o resymau pam gallai pobl gael trafferth neu fethu aros mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau (gan gynnwys sgiliau, fforddiadwyedd, argaeledd cysylltedd band eang, dewis personol etc.), ac yn cydnabod bod hynny hefyd yn eu hatal rhag gallu elwa o gyrchu gwasanaethau allweddol o sianeli'r llywodraeth i siopa ar-lein.

Rydyn ni wedi ymrwymo i'r Siarter Cynhwysiad Digidol sy'n ceisio helpu pobl a eithriwyd yn ddigidol i fwynhau manteision bod ar-lein – yn arbennig pobl hŷn, pobl ag anableddau, pobl ddi-waith, tenantiaid tai cymdeithasol, teuluoedd mewn tlodi a chymunedau ethnig lleiafrifol.



# Asesiad Effaith

Mae'r Ddyletswydd Sosio-Economaidd (Deddf Cydraddoldeb 2010) a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021 yn gofyn bod cynghorau, wrth wneud penderfyniadau strategol megis pennu blaenoriaethau, yn ystyried sut gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais sosio-economaidd.

Roedd ystyried effeithiau anfantais sosio-economaidd wedi bod yn rhan o'n proses Asesiad Effaith Integredig (AEI) i ryw raddau o'r cychwyn. Ond wrth i'r ddyletswydd gael ei chyflwyno, roedd angen dull gweithredu mwy pwyllog, a chafodd y broses AEI ei diwygio i sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried yn llawn ochr yn ochr â'n dyletswyddau statudol eraill.

Yn ystod 2021-2022 cynhaliwyd tri archwiliad gan ein gwasanaeth archwilio mewnol, ymgynghorydd allanol ac Archwilio Cymru. Bu'r archwiliadau hyn yn ystyried cwblhau a chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch Asesiadau Effaith Integredig, ansawdd yr asesiadau a gynhaliwyd, a sut mae cyrff cyhoeddus yn cynnal Asesiadau Effaith Integredig (AEIau) ac effaith hynny ar y penderfyniadau a wneir, yn eu tro.

Yng ngwanwyn 2023, mewn ymateb i argymhellion yr archwiliadau, datblygwyd cynllun gweithredu, ac mae'n cael ei roi ar waith i sicrhau bod y broses asesu yr un mor gadarn.

Mae hyfforddiant ar gynnal asesiadau effaith yn elfen allweddol yn y cynllun gweithredu, ac o ganlyniad mae wedi cael ei ymgorffori yn y rhaglen hyfforddi gorfforaethol fel cwrs gorfodol ar gyfer arweinwyr, rheolwyr a phrif swyddogion.

Mae asesiadau effaith integredig a gwblhawyd yn rhan o'r adroddiadau ar benderfyniadau, ac fe'u cyhoeddir ar ein gwefan yn rhan o'r pecyn adroddiadau ar gyfer y Cabinet. Bwriad yr Asesiad Effaith Integredig yw bod gan yr aelodau ddealltwriaeth dda o sut mae'r penderfyniadau y bwriedir eu gwneud yn effeithio ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig neu ffactorau eraill, fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau diogel a gwybodus.

# Hyfforddiant

Mae hyfforddiant yn elfen bwysig o'n gwaith, nid yn unig o ran ein helpu i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb, ond hefyd fel nodwedd allweddol yn natblygiad personol cyflogeion ac aelodau etholedig. O ganlyniad, datblygwyd rhaglen hyfforddi, wedi'i llywio gan asesiad o'r ddarpariaeth bresennol ac adborth o arolwg staff, yng ngwanwyn 2023, i helpu i hybu cydraddoldeb yn y gweithle yn well. Mae'r rhaglen hyfforddi yn cynnwys ymwybyddiaeth gyffredinol o gydraddoldeb, yn ogystal â hyfforddiant mwy penodol ar bynciau megis tuedd anymwybodol; hyfforddiant ymwybyddiaeth ynghylch nodweddion gwarchodedig penodol; iechyd a llesiant, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a hyfforddiant Asesiadau Effaith Integredig.

Mae materion cydraddoldeb hefyd wedi cael eu cynnwys mewn pynciau eraill ymddangosiadol ddigyswllt, er enghraifft ar gyfer swyddogion cwynion a hyfforddiant rheoli perfformiad ac arfarniad perfformiad ar gyfer rheolwyr, ymhlith eraill.

# Ein Hamcanion Cydraddoldeb *(parhad...)*

Mae cyfnod sylweddol o amser wedi mynd heibio ers ein Cynllun diwethaf, ac eto mae'r heriau, yr anghydraddoldeb a'r anghyfiawnder oedd i'w gweld bryd hynny yn dal mor amlwg ag erioed. Mae ein cymunedau yn parhau i wynebu pwysau cynyddol oherwydd canlyniadau gwrthdaro byd-eang; annhegwch a achoswyd gan effaith y pandemig, chwyddiant a phrisiau ynni; mae mwy o bobl yn troi at y gwasanaethau cymdeithasol am help; mae mwy o bobl yn cael eu hunain yn ddigartref, ac mae angen help ychwanegol ar fwy o blant yn yr ysgol ac wrth deithio i'r ysgol.

Yn erbyn y gefnlen hon y buom ni'n adolygu ein hamcanion cydraddoldeb, a chafwyd eu bod yn dal yn berthnasol i'n cymunedau yng Nghastell-nedd Port Talbot. Roedd y newidiadau oedd yn ofynnol yn ymwneud â chamau gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn; newidiadau yn bennaf oherwydd bod camau gweithredu wedi'u cwblhau; camau gweithredu cyfnodol/oedd wedi dyddio; newid ffocws i gamau gweithredu mwy perthnasol.

**Mae ein hamcanion cydraddoldeb, felly, yn parhau fel a ganlyn:**

- **Addysg:** sicrhau bod plant a phobl ifanc y gorau gallan nhw fod
- **Iechyd a Llesiant:** hybu llesiant a iechyd meddwl da, a mynd i'r afael â gwahaniaethu a stigma iechyd meddwl
- **Diogelwch Personol:** sicrhau bod pobl a chymunedau yn ddiogel, yn cael eu parchu ac yn rhydd rhag trais a chamdriniaeth
- **Cyflogaeth:** sicrhau bod ein gweithlu yn adlewyrchu ein cymuned yn well, bod ein polisïau yn deg, a bod bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu lleihau
- **Cyfranogiad:** sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb, a bod pobl a chymunedau'n gallu dylanwadu'n well ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw
- **Safonau byw:** gweithio i leihau tlodi a chefnogi byw'n annibynnol

Ceir manylion y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu hyn yn ystod y cyfnod 2020-2024 yn yr amrywiol adroddiadau blynyddol.

Er ein bod wedi canolbwyntio'n bennaf ar weithio i gyflawni'r amcanion, rydym hefyd wedi bod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau ehangach o ran Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

**Maer Ieuenctid:** Etholir i swyddi'r Maer Ieuenctid a'r Dirprwy Faer Ieuenctid yn flynyddol gan Gyngor Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael llais ac yn cael mynegi barn ar faterion lleol sy'n bwysig iddyn nhw.

**Rhwydwaith Lleiafrifoedd Ethnig CnPT:** sefydlwyd y grŵp hwn o gyflogeion y cyngor gyda chylch gorchwyl cytunedig a chadeirydd ac is-gadeirydd a benodwyd gan yr aelodau. Mae'r Rhwydwaith wedi bod yn allweddol o ran helpu i symud ymlaen gydag agenda gwrth-hiliaeth yn y cyngor, gan gynnwys helpu i ddatblygu camau gweithredu, ac mae'n parhau i ddarparu mewnwelediad gwerthfawr i'n gwaith.

# Ein Hamcanion Cydraddoldeb *(parhad...)*

**Rhwydwaith Cyflogeion LHDTC+ Cyngor CnPT:** cafodd y rhwydwaith hwn ar gyfer cyflogeion y cyngor sy'n perthyn i'r gymuned LHDTC+ ei lansio yn 2024. Fe'i sefydlwyd gyda chylch gorchwyl cytunedig a chadeirydd ac is-gadeirydd a benodwyd gan yr aelodau. Mae'r rhwydwaith yn gyfle i gyflogeion LHDTC+ uno, rhannu profiadau, ceisio arweiniad a chyfrannu at wella'r amgylchedd yn y gweithle.

**Mae ein Prosiect Cynhwysiant Digidol a Galluogi** yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldeb digidol ar gyfer grwpiau o dan anfantais. Trwy gynyddu mynediad at dechnolegau digidol, nod y prosiect yw gwella bywyd beunyddiol, cefnogi heneiddio'n dda, a galluogi trigolion a eithriwyd yn ddigidol i gael mynediad at wasanaethau hanfodol. Mae'r prosiect yn cynnig cefnogaeth mewn dwy ffordd: sesiynau galw heibio digidol rheolaidd mewn amrywiol leoliadau cymunedol ar draws Castell-nedd Port Talbot, yn ogystal ag ymweliadau cartref digidol, i'r rhai oedd yn methu dod i leoliadau cymunedol am resymau iechyd neu symudedd.

Mae ein gwaith parhaus i ymdrin â'r tlodi mae llawer yn ein hardal yn ei wynebu wedi cynnwys cyfeirio ymlaen at y cymorth a'r cyngor sydd ar gael; gweinyddu'r cymorth a'r gefnogaeth a ddarparwyd, a gweithio gyda phartneriaid i weld beth arall gallwn ni wneud, gan gydnabod bod llawer eisoes yn digwydd ar lefel gymunedol, a nodi ble gallen ni ychwanegu gwerth.

**Llofnodwyd Memorandwm o Ddealltwriaeth** rhwng Prifysgol Abertawe a Chyngor CNPT i helpu i gydweithio'n agosach ar ardaloedd hanfodol sydd o ddiddordeb cyffredinol, gan gynnwys addysg, y farchnad lafur, ac yn arbennig helpu i roi hwb i gyflogaeth a sgiliau, yn ogystal â phwyslais ar barhau i gael hyd i ffyrdd o helpu i wella ansawdd bywyd poblogaeth sy'n heneiddio.

Cofrestrodd **ein Tîm Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg** fwy na 300 o blant dwy oed ar y Rhaglen Dechrau'n Deg. Mae'r rhaglen hon yn helpu teuluoedd sydd â phlant ifanc yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gan gynnig gofal plant rhan amser o safon uchel sy'n cael ei ariannu, yn ogystal â chymorth i rieni; gwell cefnogaeth i ymwelwyr iechyd a chefnogaeth ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu yn ôl y galw.



# Tystiolaeth a Data

Y canlynol yw rhai o’r dogfennau allweddol y cyfeiriwyd atynt yn yr adolygiad o’r amcanion cydraddoldeb a’r camau gweithredu cysylltiedig:

**‘Ydy Cymru’n Decach?’** - er bod yr adroddiad hwn, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023, wedi’i strwythuro o amgylch y naw nodwedd gwarchodedig, mae’r data a’r wybodaeth a geir o dan bob un o’r rhain yn dal yn berthnasol i’n hamcanion cydraddoldeb a ddatblygwyd yn 2020, ac y neu cefnogi. Mae’r adroddiad hefyd wedi cefnogi canfyddiadau o ddata a gasglwyd yn lleol, ac yn erbyn y cefndir hwn y datblygwyd ein camau gweithredu.

**Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2023-2027** - rydym wedi ymrwymo’n gadarn i feithrin diwylliant o bartneriaeth gyda phobl a chymunedau lleol, yn eu hannog a’u cefnogi i gyfranogi mewn democratiaeth leol, a rhoi gwybodaeth reolaidd iddyn nhw ynghylch sut mae eu cyfranogiad wedi dylanwadu ar benderfyniadau. Mae ein Strategaeth pedair blynedd yn amlinellu amcanion y cyngor, ei ddull gweithredu a’i fecanweithiau ar gyfer annog a galluogi cyfranogiad y cyhoedd, ynghyd â gwybodaeth ynghylch sut gall pobl leol ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir.

**Strategaeth Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach 2023-2026** - mae’r strategaeth ddiwygiedig yn amlinellu’r meysydd blaenoriaeth a’r cyfeiriad strategol yng nghyswllt perthnasoedd iach a gweithredu’r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yng Nghastell-nedd Port Talbot. Datblygwyd hyn gydag ymwneud asiantaethau partner a goroeswyr, a’r nod yw mynd i’r afael â phob math o drais mewn perthnasoedd, gan ymateb i’r nifer cynyddol o atgyfeiriadau sy’n cael eu derbyn gan ddarparwyr arbenigol, gan leihau niwed a gwella bywydau’r rhai yr effeithiwyd arnynt.

Nid yw bod ag agwedd cydlynus at ymdrin â **“Thrais yn erbyn Menywod”** yn golygu bod hynny’n esgeuluso camdriniaeth dynion a bechgyn neu grwpiau ac unigolion eraill sy’n profi’r mathau hyn o drais, nac yn esgeuluso delio â thrais a gyflawnir gan fenywod, lle mae hynny’n digwydd.

Mae’r strategaeth yn nodi’r cryfderau a’r heriau i’n hardal ac yn cyflwyno cyfres o gamau gweithredu cyflawnadwy i’n helpu i wireddu ein gweledigaeth hirdymor:

***“Atal a dileu trais seiliedig ar rywedd trwy hybu: cydraddoldeb; diogelwch; parch; ac annibyniaeth er mwyn galluogi pawb i fyw’n rhydd rhag camdriniaeth a’r agweddau sy’n caniatáu i hynny barhau.”***

**Adduned Cyflogwr Ymgyrch Amser i Newid Cymru** - Mae Amser i Newid Cymru yn ymgyrch genedlaethol i ddileu’r stigma a’r gwahaniaethu a wynebir gan bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Trwy ymrwymo i Adduned Cyflogwr Ymgyrch Amser i Newid Cymru mae’r cyngor wedi gwneud datganiad cyhoeddus ein bod ni fel sefydliad yn dymuno gweithredu i fynd i’r afael â gwahaniaethu a stigma iechyd meddwl. Mae’r cynllun gweithredu cysylltiedig yn darparu fframwaith i ni gefnogi cyflogeion gyda’u hiechyd meddwl, yn ogystal â chefnogi hyfforddiant a mynediad at ystod o adnoddau.

# Tystiolaeth a Data *(parhad...)*

**Gwrthod Mynediad:** Profiadau pobl hŷn o eithrio digidol yng Nghymru - 'Mae'r symudiad cyflym at y wedd ddigidol a'r rhaniad digidol mae hynny wedi'i greu wedi gadael llawer o bobl hŷn yng Nghymru yn teimlo'n annigonol, nad yw cymdeithas yn eu gwerthfawrogi, a'u bod yn cael eu gadael ar ôl, gan effeithio ar sut mae pobl yn teimlo amdanynt eu hunain ac am heneiddio.' Y sylwebaeth a seiliwyd ar brofiadau pobl hŷn ochr yn ochr â'r gwaith a wneir gan gyrff cyhoeddus i ymdrin ag eithrio digidol ymhlith y gymuned hon yw thema sylfaenol yr adroddiad a gynhyrchwyd gan y Comisiynydd Pobl Hŷn. Mae ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i'r argymhellion yn yr adroddiad.

**Grŵp Llywio Costau Byw ac Atal Tlodi** - sefydlwyd y Grŵp partneriaeth hwn yn 2022 i gefnogi pobl trwy'r argyfwng costau byw ac i ddatblygu dull tymor hwy o ymdrin ag atal tlodi yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu cynllun gweithredu tymor hwy a strategaeth gwrthdlodi, gan gwmpasu datblygiadau a gwaith sydd eisoes yng ngofal partneriaid.

**Cydraddoldebau mewn Cyflogaeth** - mae ein hadroddiad diweddaraf Cydraddoldebau Blynyddol mewn Cyflogaeth yn darparu gwybodaeth a gasglwyd ac a gyhoeddwyd fel rhan o'n gofynion cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Mae'r ciplun blynyddol hwn, a ddadansoddwyd yn ôl nodweddion gwarchodedig a chategorïau penodedig, yn rhoi trosolwg o'n gweithlu.

**Y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau** - yn ein hadroddiad diweddaraf ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau (2023) mae'r bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau yn dangos bod menywod, ar gyfartaledd, yn ennill 3.67% yr awr yn llai na dynion; gostyngiad o 4.26% ers 2022. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf rydym wedi partnera â Chwarae Teg ar fentrau i gefnogi menywod yn y gweithle a lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae gennym Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywedd sy'n cynnwys camau gweithredu i gefnogi menywod yn y gweithle. Mae gennym gyfle i'n rheolwyr ddefnyddio ffurflenni ymgeisio dienw i wella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y broses recriwtio (ac mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig). Rydym hefyd wedi ennill Dyfarniad Cydraddoldeb Rhywedd Chwarae Teg am ein gwaith mewn perthynas â'n Cynllun Mentora, 'Ment2Be NPT', sy'n ceisio cefnogi menywod yn y gweithlu sy'n derbyn tâl isel i gael mynediad at ddatblygiad gyrfa. Gwaetha'r modd, mae Chwarae Teg wedi cau bellach, ond bydd y gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu a ddatblygwyd gennym mewn partneriaeth â nhw yn parhau, ynghyd â'n hymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb rhywedd yn ein gweithleoedd.

# Tystiolaeth a Data *(parhad...)*

**Yr Iaith Gymraeg** - mae gweithio i gyflawni gofynion safonau'r Gymraeg yn allweddol i'n gwaith, ac er nad ydym bob amser yn llwyddo i wneud hynny, rydym wedi ymrwymo i egwyddor Mesur yr Iaith Gymraeg 2011. Mae darparu gwasanaeth yn Gymraeg â nifer cyfyngedig o siaradwyr Cymraeg yn heriol. Fodd bynnag, rydym ni'n barhaus yn edrych ar ffyrdd o oresgyn hynny er mwyn darparu gwasanaeth mwy effeithiol ac ymatebol. Mae ein Hadroddiadau Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg yn manylu ar sut rydym ni'n bodloni'r safonau hynny.

**Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023-2028** - mae'r Strategaeth yn ymgorffori ein gweledigaeth – 'Erbyn 2028 bydd yr iaith Gymraeg yn fwy clywadwy a gweladwy yn ein cymunedau, ac yn cael ei defnyddio gan nifer cynyddol o bobl yn eu bywydau beunyddiol'. Mae'n ategu ac yn adeiladu ar weledigaeth a chamau gweithredu ein Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2023-2032; mae'n helpu i godi proffil y Gymraeg; mae'n helpu i sicrhau bod pobl yn gallu cyfranogi yn y gymdeithas yn eu dewis iaith, ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu amgylchedd lle gall pobl barchu, derbyn ac ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg.

**Cyfamod Lluoedd Arfog CnPT** – fel rhan o'n hymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog, mae ein Swyddog Cyswllt ar gyfer Cyfamod y Lluoedd Arfog (sy'n gweithio ar draws Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr) wedi bod yn allweddol i'r amrywiol fentrau a phrosiectau yr ymgymerwyd â nhw yn y fwrdeistref sirol ac yn rhanbarthol; roedd y rhain yn cynnwys Gŵyl Lluoedd Arfog flynyddol Maer Castell-nedd Port Talbot, hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Lluoedd Arfog, pentref y Lluoedd Arfog a chodi'r faner yn Sioe Awyr Cymru.

Mae'r Cyfamod yn addewid gan y genedl yn sicrhau bod y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg.



# Tystiolaeth a Data *(parhad...)*

**Cynllun Corfforaethol Castell-nedd Port** – gyda'n Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2024-2027 (LINK) rydym wedi manteisio ar y cyfle i gymryd stoc ac ailosod blaenoriaethau'r cyngor yng ngoleuni'r cyd-destun newydd rydyn ni'n gweithio oddi mewn iddo. Mae'r cynllun corfforaethol ar ei newydd wedd yn disgrifio'r gyfres nesaf o gamau rydyn ni'n credu bydd angen i ni eu cymryd er mwyn cydbwyso anghenion ein cymunedau yn y presennol, ynghyd â'r cyfleoedd bydd angen i ni afael ynddynt os ydyn ni i greu dyfodol mwy llewyrchus, tecach a gwyrddach i bawb yn y tymor hir.

Fel rhan o'n proses adolygu rydym wedi dod i'r casgliad bod ein pwrpas, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd yn dal yn berthnasol, ac yn disgrifio'r math o gyngor rydym ni am ddatblygu i fod.

Mae ein pedwar amcan llesiant, a bennwyd yn 2022, yn dod yn uniongyrchol o'n gweledigaeth ac yn parhau'n ffocws i ni:
- Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd
- Bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy
- Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth
- Bod pobl leol yn fedrus ac yn cael mynediad at swyddi gwyrdd o safon uchel

**Parhewch i Sgwrsio** - Yn 2021, fe wnaethon ni lansio ymarferiad ymgysylltu â'r cyhoedd 'Dewch i Sgwrsio' i lywio ein blaenoriaethau corfforaethol wrth i ni ddod allan o gyfnod y pandemig. Fe glywson ni gan bron dwy fil o bobl fel rhan o'r gwaith hwnnw, gan gynnwys pobl o wahanol rannau o'r fwrdeistref sirol, a phobl o bob math o gefndiroedd.

Fe wnaethon ni ailadrodd yr ymarferiad, Daliwn ati i Sgwrsio yn ystod haf 2023 er mwyn sicrhau bod gennym ni ddealltwriaeth dda o'r hyn sy'n bwysig i bobl nawr, a chael cipolwg clir ar yr hyn sydd wedi newid ym mywydau pobl ers yr ymarferiad gwreiddiol yn ôl yn 2021 - 2022.

Sylw Archwilio Cymru oedd 'Mae'r cyngor wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â'i gymunedau trwy ei fentrau 'Dewch i Sgwrsio' a 'Parhewch i Sgwrsio'.



# Tystiolaeth a Data *(parhad...)*

**Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth i Gymru** - Mae'r Cynllun yn adeiladu ar fentrau blaenorol Llywodraeth Cymru ynghylch cydraddoldeb hil. Amlygwyd bod y Cynllun yn destun brys, a dwysawyd hynny gan bandemig COVID-19 a gweledegdd ac ymateb digynsail y byd i ladd George Floyd yn UDA.

I gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Cymru sy'n wrth-hiliol' erbyn 2030 mae angen crynhoi ymdrechion mewn meysydd blaenoriaeth:

- Arweinyddiaeth yn Llywodraeth Cymru ac ar draws sector cyhoeddus Cymru
- Addysg a'r Iaith Gymraeg
- Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon
- Iechyd
- Gofal Cymdeithasol
- Cartrefi a Lleoedd
- Llywodraeth Leol
- Cyflogadwyedd a Sgiliau, gan gynnwys Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg ac Entrepreneuriaeth
- Cenedl Noddfa – Cefnogaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Trosedd a Chyfiawnder
- Gofal Plant a Chwarae

**Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru** - y Cynllun yw'r fframwaith ar gyfer datblygu polisi LHDTC+ ar draws y llywodraeth a chyda'n partneriaid. Mae'n cyflwyno'r camau pendant bydd Llywodraeth Cymru yn neu cymryd i gryfhau cydraddoldeb i bobl LHDTC+, i herio gwahaniaethu yn eu herbyn, ac i greu cymdeithas lle mae pobl LHDTC+ yn ddiogel i fyw a charu'n ddidwyll, yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain.

Rydym hefyd wedi ystyried amrywiol ganfyddiadau ymchwil genedlaethol a lleol; y data diweddaraf sydd ar gael i'r cyngor a materion a godwyd gan Rwydwaith Lleifrifoedd Ethnig CNPT a grwpiau cydraddoldeb eraill lleol, yn ogystal ag adborth o ymgyngoriadau diweddar.



# Monitro ac Adolygu

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn gofyn bod y cyngor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol o'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni ei amcanion cydraddoldeb. Bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd hwn ar gyfer y cyfnod 2024-2025, a rhagwelir dyddiad cyhoeddi yn ystod Hydref 2025.

Gan fod ein Cynllun Corfforaethol yn cynnwys camau gweithredu a blaenoriaethau gwelliant sy'n ategu'r rhai a nodwyd er mwyn bodloni'r amcanion cydraddoldeb, byddwn yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y Cynlluniau hyn ar yr un pryd, er mwyn darparu asesiad mwy cyfannol o gynnydd.

Cyflwynir yr adroddiad blynyddol i'r Cabinet, ac ar ôl ei gymeradwyo fe'i cyhoeddir ar ein gwefan a'i gyfathrebu trwy amrywiaeth o wahanol gyfryngau, yn unol â'n Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd. Bydd yr adroddiad blynyddol ar gael mewn fformatau amgen ar gais.

# Cydraddoldebau a chaffael

Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill o dan gytundeb perthnasol, rhaid i'r cyngor roi sylw dyledus i briodoldeb y canlynol:

- bod y meini prawf dethol a dyfarnu ar gyfer y contract hwnnw yn cynnwys ystyriaethau i helpu i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol
- pennu amodau ynghylch perfformiad y contract er mwyn helpu i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol sy'n golygu bod gofyn i'r cyngor roi 'sylw dyledus' ym mhob cyfnod o'r broses gaffael i'r angen am hybu cydraddoldeb, o ddylunio a chynllunio'r manylebau i hysbysebu, gwerthuso cyflwyniadau, a monitro a gorfodi contractau.

Mae dylunio a chynllunio manylebau yn ran hanfodol o bennu sut mae modd cynnwys hybu cydraddoldeb mewn prosiect caffael unigol.

Bydd hyn yn ffurfio cynnwys cydraddoldeb y fanyleb a/neu amodau'r contract, ac yn dylanwadu ar y pwysau a roddir ar ystyriaethau cydraddoldeb wrth ddethol tendrwyr ac wrth werthuso tendrau. Wrth i gontract gael ei fonitro, bydd y cyngor yn gweithredu'n brydlon os daw'n ymwybodol o berfformiad gwael neu ddiffyg perfformiad yng nghyswllt gofynion cydraddoldeb contract, a bydd hefyd yn gwneud trefniadau priodol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddyletswyddau cyffredinol a phenodol cyflenwyr ymhlith eu cyflogeion.

**Strategaeth Gaffael** - Ar adeg ysgrifennu, mae'r cyngor yn y broses o lunio'i Strategaeth Gaffael yn derfynol, wrth baratoi ar gyfer deddfwriaeth newydd a fydd yn deillio o'r diwygiadau i'r gyfraith gaffael sydd ar fin cael eu cyflwyno ar lefel Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Bydd y strategaeth newydd yn disgrifio sut bydd polisïau ac arferion caffael y cyngor yn glynu wrth ystod o ofynion deddfwriaethol ychwanegol, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED). Bydd yn sicrhau bod cydraddoldeb yn ystyriaeth ar hyd y cylch caffael a bod PSED yn cael ei chymhwyso at bob contract, beth bynnag ei werth, gan ein helpu i gaffael mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol. Cyfeirir hefyd at ein ffordd o weithio gyda chontractwyr, lle bydd hynny'n berthnasol, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion PSED a sicrhau bod yr holl gontractwyr yn cymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010.

# Camau Gweithredu i gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb

## Addysg

### Sicrhau bod plant a phobl ifanc y gorau gallan nhw fod

**Blaenoriaeth 1.1** Bydd pob Plentyn a Pherson Ifanc yn gwella'u lefelau cyrhaeddiad trwy gael mynediad at addysg sy'n eu hysbrydoli i ddysgu a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol a garant

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio gyda'r sector gofal plant a phartneriaid i ddatblygu cynnig tecach yn y Blynyddoedd Cynnar er mwyn sicrhau bod ein dysgwyr ifancaf yn pontio'n llwyddiannus i addysg. | Bod holl blant y blynyddoedd cynnar yn pontio'n llwyddiannus i addysg. | Gwaith rheolaidd i fonitro a gwerthuso nifer y plant oedran meithrin/derbyn sy'n llwyddo i gael mynediad i addysg. | **AG:** Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiad a Chyfranogiad<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Chynllun Cyfarwyddiaeth Strategol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes |
| Byddwn yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd, gan gynnwys teuluoedd y Lluoedd Arfog, i gyrchu'r cymorth y mae arnynt ei angen gan wasanaethau ar y cyfle cynharaf. | Bod pob plentyn, person ifanc a theulu yn cael y gefnogaeth a'r cymorth cynnar y mae eu hangen arnynt | Gwaith rheolaidd i fonitro a gwerthuso deilliannau rhaglenni ymyrraeth gynnar, gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg | **AG:** Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiad a Chyfranogiad<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; a Chynllun Cyfarwyddiaeth Strategol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes |

**Blaenoriaeth 1.1 *(parhad)*** Bydd pob Plentyn a Pherson Ifanc yn gwella'u lefelau cyrhaeddiad trwy gael mynediad at addysg sy'n eu hysbrydoli i ddysgu a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol a garant.

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn parhau i weithio gyda disgyblion blwyddyn 11 y mae angen cymorth ychwanegol arnynt wrth bontio'n llwyddiannus i gyrchfan ôl-16. | Bydd pobl ifanc yn pontio'n llwyddiannus o'r ysgol i gyrchfan ôl-16.<br><br>Bydd ein pobl ifanc wedi'u paratoi'n well i bontio o'r ysgol i gyrchfan ôl-16 | Nifer y disgyblion blwyddyn 11 sydd heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) neu y mae eu statws yn anhysbys yn ôl ciplun data cyrchfannau Gyrfa Cymru.<br><br>Nifer y bobl ifanc sy'n nodi yn eu ffurflenni gwerthuso Gwaddol eu bod wedi'u paratoi'n well ar gyfer y dyfodol. | **AG:** Gwasanaeth Ieuenctid CnPT<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar / Newid yn yr Hinsawdd a Thwf Economaidd<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu Plant a Phobl Ifanc 2022-2025 |
| Byddwn yn cynnig cyfleoedd achredig mewn lleoliadau anffurfiol. | Bydd pobl ifanc yn cael cyfleoedd i gyflawni deilliannau achredig mewn lleoliad anffurfiol. | Nifer y bobl ifanc sy'n cael achrediadau gan y Gwasanaeth Ieuenctid. | **AG:** Gwasanaeth Ieuenctid CnPT<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT |
| Byddwn yn cyflwyno Cynllun Gwobr Dug Caeredin i bobl ifanc. | Bydd cyfle i bobl ifanc gyflawni Gwobr Dug Caeredin ar bob lefel. | Nifer y bobl ifanc sy'n cyflawni Gwobr Dug Caeredin. | **AG:** Gwasanaeth Ieuenctid CnPT<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT |
| Byddwn yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau Cymraeg mewn lleoliadau anffurfiol. | Bydd cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am iaith a diwylliant Cymru y tu allan i addysg ffurfiol a thrwy sesiynau a gweithgareddau hamdden, cymdeithasol ac anffurfiol. | Nifer y bobl ifanc sy'n defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad hamdden neu gymdeithasol. (codwyd o werthusiadau'r gwasanaeth ieuenctid)<br>Nifer y bobl ifanc sy'n mynychu darpariaeth Gymraeg. | **AG:** Gwasanaeth Ieuenctid CnPT<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |

**Blaenoriaeth 1.1 *(parhad)*** Bydd pob Plentyn a Pherson Ifanc yn gwella'u lefelau cyrhaeddiad trwy gael mynediad at addysg sy'n eu hysbrydoli i ddysgu a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol a garant.

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i leihau rhwystrau i ddysgu a chynnig addysg deg, gynhwysol i bob disgybl, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai o deuluoedd incwm isel | Bydd pob disgybl yn derbyn addysg deg, hygyrch ac yn cyflawni deilliannau da yn unol â'u gallu | Gwell deilliannau i bob plentyn a pherson ifanc. | **AG:** Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiad a Chyfranogiad<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Chynllun Cyfarwyddiaeth Strategol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes |
| Byddwn yn gweithio gyda gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar, rhieni ac ysgolion i adnabod y plant ag ADY y mae angen cymorth penodol arnynt er mwyn ymgysylltu'n llwyddiannus ag addysg. | Bydd pob plentyn blynyddoedd cynnar yn pontio'n llwyddiannus i'r ysgol ac yn derbyn cymorth ac ymyrraeth gynnar pan fo angen. | Monitro a gwerthuso cynnydd y plant yn rheolaidd. | **AG:** Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiad a Chyfranogiad<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Chynllun Cyfarwyddiaeth Strategol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes |
| Byddwn yn gweithredu gofynion llawn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chôd Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021 ar draws yr Awdurdod Lleol ac yn yr ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan godi safonau ar draws ein system addysg. | Bydd pob disgybl yn symud yn llwyddiannus o'r hen system AAA i'r system ADY newydd yn unol ag amserlenni Llywodraeth Cymru. | Nifer y disgyblion sydd wedi symud yn llwyddiannus o'r hen system AAA i'r system ADY newydd.<br><br>Dangosyddion perfformiad yn ymwneud â chyflwyno cynlluniau statudol newydd a rhai wedi'u trosi. | **AG:** Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiad a Chyfranogiad<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Chynllun Cyfarwyddiaeth Strategol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes |

**Blaenoriaeth 1.1 *(parhad)*** Bydd pob Plentyn a Pherson Ifanc yn gwella'u lefelau cyrhaeddiad trwy gael mynediad at addysg sy'n eu hysbrydoli i ddysgu a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol a garant.

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn sicrhau y cynigir addysg deg i Blant sy'n Derbyn Gofal (CLA) ac na fyddant yn wynebu anfantais o ganlyniad i'w statws gofal. Cefnogir dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn. | Bydd pob disgybl CLA yn derbyn addysg deg, hygyrch ac yn cyflawni canlyniadau da yn unol â'u gallu. | Monitro a gwerthuso cynnydd CLA yn rheolaidd. | **AG:** Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiad a Chyfranogiad<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Chynllun Cyfarwyddiaeth Strategol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes |
| Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol (ALl) yn cyflawni'i ddyletswyddau statudol wrth gyflwyno cynnig teg o ddarpariaeth ôl-16 i bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). | Byddwn yn lleihau nifer y bobl ifanc ag ADY sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) | Nifer y bobl ifanc ag ADY sy'n pontio'n llwyddiannus i addysg ôl-16, cyflogaeth neu hyfforddiant. | **AG:** Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiad a Chyfranogiad<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Chynllun Cyfarwyddiaeth Strategol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes |
| Darparu hyfforddiant ar gyfer addysgu'r Cwricwlwm i Gymru | Bydd disgyblion yn gwneud cynnydd o ran pedwar diben y Cwricwlwm | Trwy ystod o weithgareddau hunanwerthuso (arsylwi gwersi, troeon dysgu, dadansoddi data, cyfweld â disgyblion) | **AG:** Datblygiad Addysg<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun y Gwasanaeth Datblygu Ysgolion |
| Darparu llwybr arweinyddiaeth ar lefel leol a chenedlaethol | Bod arweinwyr ysgolion CnPT yn dra effeithiol | Trwy werthusiadau a gynhelir yn ystod ymweliadau rheolaidd ag ysgolion ynghyd â thrwy ystod o raglenni gwirio allanol (e.e. y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer prifathrawon) | **AG:** Datblygiad Addysg<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun y Gwasanaeth Datblygu Ysgolion |

**Blaenoriaeth 1.1 *(parhad)*** Bydd pob Plentyn a Pherson Ifanc yn gwella'u lefelau cyrhaeddiad trwy gael mynediad at addysg sy'n eu hysbrydoli i ddysgu a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol a garant.

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Darparu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol i staff ysgol sy'n cefnogi cynnydd pob dysgwr | Bydd athrawon yn datblygu mewn meysydd allweddol a nodwyd trwy hunanwerthusiad effeithiol er lles dysgwyr yr ysgol. | Trwy weithgareddau hunanwerthuso Cynnydd y disgyblion o ran eu dysgu o ganlyniad i ddysgu proffesiynol effeithiol. | **AG:** Datblygiad Addysg<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun y Gwasanaeth Datblygu Ysgolion |
| Sicrhau bod rhieni'n ymwneud ag addysg y disgyblion | Datblygir nifer o brosiectau ysgolion bro ar draws yr ALl | Nifer y rhieni sy'n ymwneud â gweithgareddau dros amser | **AG:** Datblygiad Addysg<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar |

**Blaenoriaeth 1.2** Bod pob plentyn a pherson ifanc yn ymgysylltu â'u haddysg ac yn profi mwy o ymdeimlad o berthyn ar hyd eu taith addysg.

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio gyda theuluoedd a chymunedau i annog ymgysylltiad â gofal plant ac addysg gynnar er mwyn helpu mwy o blant i baratoi ar gyfer oes o ddysgu. | Bydd mwy o blant yn ymgysylltu â gofal plant ac addysg gynnar. | Bydd swyddogion Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn monitro ac yn gwerthuso nifer y plant sy'n ymgysylltu â gofal plant ac addysg gynnar. | **AG:** Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiad a Chyfranogiad<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; Cynllun Cyfarwyddiaeth Strategol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes; *ac* Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant CnPT |
| Byddwn yn parhau i weithio gyda disgyblion, rhieni/gofalwyr ac ysgolion i leihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol | Llai o ddisgyblion yn cael eu gwahardd | Nifer y disgyblion a waherddir fesul grŵp agored i niwed (e.e. ADY / CLA / plant y Lluoedd) | **AG:** Cymorth i Blant a Theuluoedd<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT |

**Blaenoriaeth 1.2 *(parhad)*** Bod pob plentyn a pherson ifanc yn ymgysylltu â'u haddysg ac yn profi mwy o ymdeimlad o berthyn ar hyd eu taith addysg.

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn casglu data oddi wrth ysgolion ac yn eu cefnogi i fynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu o bob math ac yn gweithio gyda nhw i fynd i'r afael â thueddiadau/phroblemau | Data wedi'i gasglu a'i ddadansoddi | Adroddiadau gan ysgolion ynghylch unrhyw faterion bwlio ac aflonyddu | **AG:** Cymorth i Blant a Theuluoedd<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT |
| Byddwn yn gweithio gydag ysgolion a lleoliadau eraill perthnasol i gefnogi disgyblion sy'n dioddef bwlio ac yn gweithio gyda'r rhai sy'n gwneud y bwlio | Cefnogaeth i'r dioddefwyr a'r cyflawnwyr | Adborth gan ddioddefwyr a chyflawnwyr ar lwyddiant yr ymyrraeth a'r cymorth trwy ddull gweithredu amlasiantaeth | **AG:** Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT |
| Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion a lleoliadau eraill perthnasol i sicrhau bod eu hamgylcheddau dysgu yn ddiogel ac yn gefnogol, a bod parch ac ystyriaeth lawn yn cael eu rhoi i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. | Mae pob ysgol a lleoliad yn gweithredu dull addysgeg priodol sy'n sicrhau bod amgylcheddau dysgu yn gefnogol, yn ddiogel ac yn gynhwysol | Bydd swyddogion addysg yn monitro ac yn gwerthuso ansawdd yr amgylcheddau dysgu | **AG:** Datblygiad Addysgol<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Cyfarwyddiaeth Strategol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes |
| Byddwn yn gweithio gydag ysgolion, plant, pobl ifanc, teuluoedd a phartneriaid i barhau i ddatblygu dull gweithredu Ysgolion Bro. | Bydd mwy o rieni'n ymwneud â'r dysgu ac yn defnyddio'r asedau yn yr ysgol. Bydd rhieni'n deall cynnydd eu plant yn well. | Nifer y rhieni'n sy'n cymryd rhan yn yr ysgolion sy'n rhan o'r cynllun. | **AG:** Datblygiad Addysgol<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Cynllun Cyfarwyddiaeth Strategol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes |

**Blaenoriaeth 1.2 *(parhad)*** Bod pob plentyn a pherson ifanc yn ymgysylltu â'u haddysg ac yn profi mwy o ymdeimlad o berthyn ar hyd eu taith addysg.

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a sefydliadau lleol i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc 'yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol ac yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol'. | Bydd pob ysgol yn llunio datganiad gweledigaeth sy'n adlewyrchu eu dull o gyflwyno cwricwlwm amrywiol. | Bydd Swyddogion Cymorth Addysg yn gwerthuso i ba raddau y mae ysgolion yn gwneud cynnydd o ran pedwar diben y Cwricwlwm ac yn herio'r arweinwyr ynghylch i ba raddau y maent yn gwireddu'r weledigaeth a amlinellir yn eu datganiad. | **AG:** Datblygiad Addysgol<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun y Gwasanaeth Datblygu Ysgolion |
| Byddwn yn gweithio gydag ysgolion a sefydliadau lleol i sicrhau bod addysgu'r cwricwlwm newydd yn adlewyrchu natur amlethnig Cymru | Bydd pob ysgol yn llunio datganiad gweledigaeth sy'n adlewyrchu eu dull o ddarparu cwricwlwm amrywiol. | Bydd Swyddogion Cymorth Addysg yn gwerthuso i ba raddau mae ysgolion yn gwneud cynnydd o ran pedwar diben y Cwricwlwm ac yn herio'r arweinwyr ynghylch i ba raddau y maent yn gwireddu'r weledigaeth a amlinellir yn eu datganiad. | **AG:** Blynyddoedd Cynnar a Phartneriaethau<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun y Gwasanaeth Datblygu Ysgolion |
| Byddwn yn darparu cymorth grŵp wedi'i dargedu i ofalwyr ifanc, pobl ifanc LHDTC+, pobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a phobl ifanc sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref er mwyn lleihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. | Bydd cyfle i bobl ifanc gael mynediad at gymorth gwaith ieuenctid a arweinir gan anghenion.<br><br>Bydd pobl ifanc yn dweud bod eu llesiant wedi gwella o ganlyniad i gyrchu'r ddarpariaeth. | Nifer y bobl ifanc sy'n mynychu'r grwpiau a dargedir.<br><br>Nifer y bobl ifanc sy'n nodi yn eu ffurflenni gwerthuso fod eu llesiant wedi gwella neu eu bod yn teimlo'n well ynghylch eu hunain. | **AG:** Gwasanaeth Ieuenctid CnPT<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar / Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac Iechyd<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT |

**Blaenoriaeth 1.2 *(parhad)*** Bod pob plentyn a pherson ifanc yn ymgysylltu â'u haddysg ac yn profi mwy o ymdeimlad o berthyn ar hyd eu taith addysg.

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn cynnig cymorth llwyth achosion gwaith ieuenctid trwy ystod o ddarpariaethau er mwyn gwella iechyd a lles emosiynol pobl ifanc. | Cynigir cymorth i bobl ifanc gan weithiwr ieuenctid teuluoedd yn gyntaf yn dilyn atgyfeiriad i'r Panel Ataliaeth ac Ymyrraeth Gynnar.<br><br>Cynigir cymorth i bobl ifanc gan weithiwr Lles ieuenctid trwy atgyfeiriad Gwaddol neu atgyfeiriad risg digartrefedd. | Nifer y bobl ifanc a gefnogir.<br><br>Nifer y bobl ifanc sy'n dweud bod eu lles wedi gwella | **AG:** Gwasanaeth Ieuenctid CnPT<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT |
| Bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) i ddisgyblion blwyddyn 7 ac i bobl ifanc trwy Wasanaeth Galw Heibio Cyngor ar Gydberthnasoedd (RADS) mewn lleoliadau cymunedol. | Bydd cyfle i bobl ifanc fynychu sesiynau RSE a RADS sy'n cwmpasu pynciau trafod megis y glasoed, cydberthynas ddiogel, atal cenhedlu, beichiogrwydd, erthyliad, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, LHDTC+ etc | Nifer y bobl ifanc sy'n mynychu sesiynau RSE yn yr ysgol a sesiynau RADS yn y gymuned.<br><br>Nifer y bobl ifanc sy'n dweud eu bod bellach yn gallu gwneud dewisiadau bywyd cadarnhaol. | **AG:** Gwasanaeth Ieuenctid CnPT<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT |



# Iechyd a Llesiant

## Hybu llesiant a iechyd meddwl da yn y gweithle, a mynd i'r afael â gwahaniaethu a stigma

**Blaenoriaeth 2.1** Bydd ein Staff yn cael cefnogaeth a bydd gwasanaethau priodol yn cael eu hyrwyddo

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn cyflwyno ein Strategaeth Iechyd Meddwl mewn partneriaeth ag Amser i Newid Cymru | Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn darparu gwybodaeth am iechyd meddwl, yn cyfeirio pobl at wasanaethau cymorth, yn ogystal â darparu hyfforddiant ac adnoddau i'r staff i helpu i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â iechyd meddwl<br><br>Byddwn yn parhau i ddarparu rhwydwaith o hyrwyddwyr iechyd meddwl | Data Absenoldeb Salwch<br>Arolwg Cyflogeion<br>Data o'r Rhaglen Cymorth i Gyflogeion<br><br>Nifer y cyflogeion sy'n ymgymryd â Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl | **AG:** AD<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategath Dyfodol Gwaith 2022-2027 |
| Byddwn yn datblygu camau gweithredu i gefnogi niwrowahaniaeth yn y gweithle: eleni, byddwn yn adolygu ac yn cyflwyno ein Polisi Recriwtio er mwyn ystyried niwrowahaniaeth mewn gwaith recriwtio. Byddwn hefyd yn darparu sesiynau hyfforddi rheolwyr llinell ynghylch niwroamrywiaeth yn y gweithle. | Bydd rheolwyr yn cael arweiniad ynghylch arferion recriwtio cynhwysol. Bydd hyn yn cefnogi ein gweithdrefnau recriwtio, gan ein gwneud yn ddewis gyflogwr o ran cefnogi pobl â chyflyrau niwrowahanol ar hyd y broses recriwtio | Byddwn yn rhoi gwybod am nifer y rheolwyr sydd wedi derbyn yr hyfforddiant.<br><br>Adborth o holiadur taith yr ymgeisydd | **AG:** AD<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategath Dyfodol Gwaith 2022-2027 |

**Blaenoriaeth 2.1 *(parhad)*** Bydd ein Staff yn cael cefnogaeth a bydd gwasanaethau priodol yn cael eu hyrwyddo

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn cefnogi lles staff ysgol trwy ddarparu goruchwyliaeth staff o ansawdd uchel. | Gwell lles i staff ysgol | Sgoriau craidd pobl ifanc cyn ac ar ôl goruchwyliaeth | **AG:** Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiad a Chyfranogiad<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Chynllun Cyfarwyddiaeth Strategol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes |
| Byddwn yn parhau i gefnogi anghenion lles staff ysgol trwy Wasanaeth Cwnsela Staff | Gwell lles i staff ysgol | Sgoriau craidd pobl ifanc cyn ac ar ôl cwnsela | **AG:** Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiad a Chyfranogiad<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Chynllun Cyfarwyddiaeth Strategol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes |

**Blaenoriaeth 2.2** Bydd anghenion iechyd a lles emosiynol Plant a Phobl Ifanc yn gwella.

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio'n agos gydag ysgolion ac asiantaethau partner i sicrhau bod Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Iechyd a Lles Emosiynol yn cael ei ymgorffori ar draws yr Awdurdod. | Bydd ysgolion yn cyflwyno ac yn ymgorffori dulliau ysgol gyfan o ymdrin ag anghenion dysgwyr sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol. | Nifer yr ysgolion sy'n llwyr weithredu'r Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Iechyd a Lles Emosiynol | **AG:** Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiad a Chyfranogiad; Pennaeth Datblygiad Addysg<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar / wasanaethau Plant a Theuluoedd<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Chynllun Cyfarwyddiaeth Strategol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes |
| Byddwn yn annog ac yn galluogi ein plant a'n pobl ifanc i fwynhau'r mannau agored, gwyrdd a naturiol yn eu cymunedau er lles eu hiechyd corfforol a'u lles meddyliol. | Mae pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad i fannau agored gwyrdd, naturiol yn eu cymuned. | Bydd Grŵp Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yr Awdurdod Lleol yn monitro ac yn adolygu nifer y mannau chwarae agored ar draws yr awdurdod lleol. | **AG:** Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiad a Chyfranogiad<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT;  Cynllun Cyfarwyddiaeth Strategol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes *ac* Asesiad Digonolrwydd Chwarae CnPT |
| Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ystod amrywiol o gyfleoedd chwarae, hamdden a gweithgareddau corfforol o safon uchel | Bydd mwy o gyfleoedd chwarae, hamdden a gweithgareddau corfforol o safon uchel ar draws Castell-nedd Port Talbot | Bydd Grŵp Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yr Awdurdod Lleol yn eu monitro a'u hadolygu | **AG:** Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiad a Chyfranogiad<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; Cynllun Cyfarwyddiaeth Strategol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes *ac* Asesiad Digonolrwydd Chwarae CnPT |

**Blaenoriaeth 2.2 *(parhad)*** Bydd anghenion iechyd a lles emosiynol Plant a Phobl Ifanc yn gwella.

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn sicrhau bod pob gweithiwr ieuenctid yn derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl. | Bydd pobl ifanc yn gallu cael mynediad at weithwyr ieuenctid â chymhwyster iechyd meddwl. | Nifer y gweithwyr ieuenctid â chymhwyster cymorth cyntaf iechyd meddwl. | **AG:** Gwasanaeth Ieuenctid CnPT<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** amh |
| Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cymorth iawn, ar yr adeg iawn, ar gyfer eu lles emosiynol (egwyddor 'Dim Drws Anghywir') | Bydd Plant a Phobl ifanc ar draws y rhanbarth yn gallu cael mynediad at gymorth priodol | Datblygu pwynt mynediad rhanbarthol ar gyfer iechyd a lles emosiynol<br>(Un o'r ffrydiau gwaith cyfredol o dan y Bwrdd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc) | **AG:** Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd<br>**AGwl:** Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>**Cynllun:** Bwrdd Rhanbarthol Plant a Phobl Ifanc |
| Byddwn yn parhau i ddatblygu cynigion cymorth cynnar ar gyfer iechyd a lles emosiynol | Bydd pobl ifanc yn gallu cael mynediad at gymorth ar y cyfle cynharaf, cyn bod argyfwng yn datblygu | Nifer y bobl ifanc sy'n cael mynediad at wasanaethau Ataliaeth ac Ymyrraeth Gynnar trwy'r panel addysg ac ataliaeth ac ymyrraeth gynnar (EIP) | **AG:** Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd<br>**AGwl:** Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>**Cynllun:** Bwrdd Rhanbarthol Plant a Phobl Ifanc |
| Byddwn yn cynnig cyfle i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned | Bydd plant yn cael cymorth i ddelio â'u hemosiynau trwy weithgareddau grŵp<br><br>Bydd plant yn cael cyfle i fynychu gweithgareddau cymdeithasol | Nifer y plant sy'n mynychu Rhaglen Caesar<br><br>Nifer y plant sy'n mynychu gweithgareddau a drefnwyd trwy'r Tîm o Amgylch y Teulu | **AG:** Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd<br>**AGwl:** Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>**Cynllun:** Bwrdd Rhanbarthol Plant a Phobl Ifanc |

**Blaenoriaeth 2.3** Bydd ein Cymunedau y mae angen cymorth arnynt yn gallu defnyddio gwasanaethau priodol

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn cyfrannu at waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i leihau'r cyfraddau hunanladdiad tybiedig yn y fwrdeistref sirol. | Mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hunanladdiad ar draws y rhanbarth | Nifer yr achosion o hunanladdiad tybiedig y rhoddir gwybod amdanynt fesul blwyddyn | **AG:** Diogelu Gwasanaethau Oedolion a Phlant<br>**AGwl:** Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac Iechyd |
| Byddwn yn cadw at ein hymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog trwy gefnogi aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog (cyn-filwyr, y rhai sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, a milwyr wrth gefn), a'u teuluoedd er mwyn sicrhau na chânt eu rhoi o dan anfantais oherwydd eu gwasanaeth wrth gyrchu cymorth a gwasanaethau iechyd a lles | Caiff aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog (cyn-filwyr, y rhai sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, a milwyr wrth gefn) eu cyfeirio at y gwasanaethau perthnasol.<br>Pan fydd angen/pan fydd hynny'n briodol, byddwn yn cysylltu â'r gwasanaethau hynny i eiriol dros aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog trwy Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog (AFLO) | Nifer yr aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau gan ein AFLO<br><br>Nifer y cysylltiadau gan yr AFLO i eiriol dros aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog | **AG:** Polisi Corfforaethol, Perfformiad ac Ymgysylltu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol / Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog |

# Diogelwch Personol

**sicrhau bod pobl a chymunedau yn ddiogel, yn cael eu parchu ac yn rhydd rhag trais a chamdriniaeth**

**Blaenoriaeth 3.1** Bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn cynyddu nifer yr adroddiadau o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghastell-nedd Port Talbot, trwy gynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau | Bydd mwy o bobl yn teimlo'n hyderus i roi gwybod am ddigwyddiadau. | Cynnydd neu ostyngiad yn nifer yr adroddiadau i Heddlu De Cymru am ddigwyddiadau cam-drin Domestig (Data'n ddibynnol ar Heddlu De Cymru). | **AG:** Tai a chymunedau<br>**AGwl:** Tai a Diogelwch Cymunedol<br>**Cynllun:** Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach |
| Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal a iach a bod ymddygiad difrïol bob amser yn anghywir | Bydd mwy o blant a phobl ifanc yn ymwybodol o berthnasoedd iach. | Nifer y plant sy'n cael gwers Perthnasoedd Iach sy'n briodol i'w hoed | **AG:** Tai a chymunedau<br>**AGwl:** Tai a Diogelwch Cymunedol<br>**Cynllun:** Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach |
| Rhoi mynediad cyfartal i'r holl ddioddefwyr at wasanaethau sy'n cynnwys adnoddau priodol o safon uchel, wedi'u harwain gan anghenion, sy'n seiliedig ar gryfder, ac sy'n ymateb i anghenion y rhywiau ar draws Castell-nedd Port Talbot | Mae'r gwasanaethau'n briodol ac ar gael/yn hygyrch i bawb | Naratif ynghylch datblygu darpariaeth neu newidiadau i wasanaethau. | **AG:** Tai a chymunedau<br>**AGwl:** Tai a Diogelwch Cymunedol<br>**Cynllun:** Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach |

**Blaenoriaeth 3.2** Bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn y gymuned

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn darparu hyfforddiant gorfodol i holl staff Grŵp A y fframwaith hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Bydd hyn yn bodloni'r gofynion a ddisgrifir yng nghanllawiau statudol y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).<br><br>Bydd ein cyflogeion yn fwy ymwybodol o faterion sy'n effeithio ar ein cymunedau ac yn gallu cymryd camau sy'n briodol i'w swydd | Nifer y staff a hyfforddwyd | **AG:** Hyfforddiant Datblygu a Dysgu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach |
| Byddwn yn darparu hyfforddiant ynghylch dyletswydd Prevent | Bydd yr holl staff yn gwybod beth yw Prevent ac yn deall pam y mae'n bwysig, byddant yn deall sut mae Prevent yn berthnasol i'w rôl, ac yn gallu adnabod yr emosiynau a'r ymddygiad a allai wneud rhywun yn agored i radicaleiddio.<br><br>Bydd y staff yn deall sut i gymhwyso'r weithdrefn sylwi, gwirio, rhannu. | Nifer y staff a hyfforddwyd | **AG:** Hyfforddiant, Datblygu a Dysgu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol |

**Blaenoriaeth 3.2 *(parhad)*** Bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn y gymuned

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio gydag aelodau grwpiau cydraddoldeb lleol, partneriaid a'n cymunedau i'w hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau/droseddau casineb a sicrhau bod pobl yn cael cymorth sy'n addas at y diben | Bydd cymunedau yn teimlo'n fwy hyderus wrth roi gwybod am ddigwyddiadau / droseddau casineb. | Cynnydd neu ostyngiad yn nifer yr adroddiadau am droseddau casineb (Data yn ddibynnol ar Heddlu De Cymru) | **AG:** Tai a chymunedau<br>**AGwl:** Tai a Diogelwch Cymunedol<br>**Cynllun:** Dogfen Bwriad Strategol Diogelwch Cymunedol 2024-2027 |
| Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i'n hadolygiad o niwed y tu allan i'r cartref teuluol | Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag niwed y tu allan i'r cartref teuluol<br>Mwy o ymwybyddiaeth o ystyr niwed y tu allan i'r cartref teuluol ar draws y gwasanaethau statudol a'r grwpiau partneriaeth allweddol<br><br>Bydd y cyhoedd yn teimlo'n fwy diogel ar draws cymunedau CnPT. | Nifer yr atgyfeiriadau sy'n dod i law mewn perthynas â niwed y tu allan i'r cartref teuluol | **AG:** Diogelu<br>**AGwl:** Tai a Diogelwch Cymunedol<br>**Cynllun:** Adolygiad o Risg a Niwed Y Tu Allan i'r Cartref wedi'i gwblhau, Awst 2024. Cynllun Gweithredu i'w ddatblygu gan Grŵp Strategol SAFE, Hydref 2024. |

# Cyflogaeth

**sicrhau bod ein gweithlu yn adlewyrchu ein cymuned yn well, bod ein polisïau yn deg a bod bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu lleihau**

**Blaenoriaeth 4.1** Bod ein gweithlu'n adlewyrchu ein cymunedau amrywiol ac yn cael ei gefnogi gan ein polisïau

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn ymuno â'r Bartneriaeth Cynghorau Balch | Fel Cyngor, byddwn yn cefnogi'r gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Traws, Cwiar (LHDTC+)ty. | Cadarnhau'r bartneriaeth. Cyfranogi mewn gweithgareddau LHDTC+ | **AG:** Polisi a Chefnogaeth Weithredol<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategath Dyfodol Gwaith 2022-2027 |
| Byddwn yn gweithio gyda'r staff i gael gwybod a oes ganddynt awydd sefydlu rhwydwaith cyflogeion LHDTC+ | Fel Cyngor, byddwn yn cefnogi'r gymuned LHDTC+ ac yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. | Adborth ansoddol a sefydlu'r rhwydwaith | **AG:** AD<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategath Dyfodol Gwaith 2022-2027 |
| Byddwn yn gweithio gyda'r staff i gael gwybod a oes ganddynt awydd sefydlu rhwydwaith cyflogeion Anabl | Fel Cyngor, byddwn yn cefnogi ein cyflogeion anabl ac yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. | Adborth ansoddol a sefydlu'r rhwydwaith | **AG:** AD<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>Cynllun: Strategath Dyfodol Gwaith 2022-2027 |
| Byddwn yn adolygu ein polisi ailbennu rhywedd | Rhoi polisi ar waith i gefnogi ein cyflogeion a sicrhau y gallant fod yn nhw eu hunain yn y gwaith, gan ofalu hefyd bod hynny'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth. | Byddwn yn derbyn adborth oddi wrth ein cyflogeion er mwyn sicrhau bod y polisi diwygiedig yn briodol, yn gefnogol ac yn hygyrch. | **AG:** AD<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategath Dyfodol Gwaith 2022-2027 |

**Blaenoriaeth 4.1** ***(parhad)*** Bod ein gweithlu'n adlewyrchu ein cymunedau amrywiol ac yn cael ei gefnogi gan ein polisïau

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn ymrwymo i'r Addunedd Cyflogwyr Oed-gyfeillgar, sef rhaglen sydd ar waith ledled y wlad ar gyfer cyflogwyr sy'n cydnabod pwysigrwydd a gwerth gweithwyr hŷn. | Ymrwymo i wella byd gwaith i bobl yn eu 50au a'u 60au a chymryd y camau angenrheidiol i'w helpu i ffynnu mewn gweithlu aml-genhedlaeth | Nifer y gweithwyr 50 oed a throsodd yn y gweithlu<br><br>Nifer yr ymgeiswyr 50 oed a throsodd sy'n cyrraedd y rhestr fer ac yn cael eu penodi<br><br>Llofnodi'r addunedd | **AG:** AD<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategath Dyfodol Gwaith 2022-2027 |
| Fel aelod sydd wedi tanysgrifio i gynllun Cyflogwyr i Ofalwyr, Gofal Cymru, byddwn yn gweithio tuag at 'Feincnod Hyderus ynghylch Gofalwyr' ac yn datblygu trefniadau ein Polisi Gofalwyr | Cynllun yw hwn sy'n cynnig cymorth i ddatblygu gweithle cefnogol a chynhwysol i ofalwyr, sy'n gwneud yn fawr o'r doniau sydd gan ofalwyr i'w cyfrannu yn y gweithle, ac yn sicrhau bod cyflogeion sy'n ofalwyr yn teimlo bod gwybodaeth, cyngor, cymorth a chefnogaeth ar gael iddynt.<br><br>Darperir hyfforddiant ynghylch cefnogi gofalwyr i Swyddogion Adnoddau Dynol a rheolwyr llinell. | Byddwn yn cynnal arolwg i adnabod gofalwyr yn ein gweithlu, ynghyd ag ymgynghoriad cychwynnol a sesiwn ddiagnosteg i'n galluogi i ddatblygu cynllun gweithredu. Rydym hefyd wedi ychwanegu swyddogaeth yn system Hunanwasanaeth Cyflogeion iTrent i alluogi cyflogeion i nodi eu bod yn 'Ofalwyr' a bydd hynny'n cael ei fonitro. | **AG:** Hyfforddiant, Datblygu a Dysgu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategath Dyfodol Gwaith 2022-2027 |
| Byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno rhaglen o Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar draws ein gweithlu, a fydd yn cynnwys Cyflwyniad i Ymwybyddiaeth Wrth-hiliaeth, Troseddau Casineb a Chaethwasiaeth Fodern, ac Ymwybyddiaeth Amlddiwylliannol. | Bydd y staff yn ymwybodol o'r angen am ddarparu cyfleoedd cyfartal i bawb a ffyrdd o amddiffyn pobl rhag unrhyw wahaniaethu yn eu herbyn | Nifer y staff a hyfforddwyd | **AG:** Hyfforddiant, Datblygu a Dysgu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategath Dyfodol Gwaith 2022-2027 |

**Blaenoriaeth 4.1** ***(parhad)*** Bod ein gweithlu'n adlewyrchu ein cymunedau amrywiol ac yn cael ei gefnogi gan ein polisïau

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG) Arwein Gwleidyddol (AGwl) Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn datblygu Strategaeth gwrth-hiliaeth, mewn partneriaeth â Rhwydwaith Cyflogeion Ethnig Lleiafrifol y Cyngor, gan ddatblygu set o gamau gweithredu seiliedig ar dystiolaeth cysylltiedig ag ymrwymiadau Siarter Gwrth-hiliaeth Unsain, gyda'r nod o wella cydraddoldeb ac amrywiaeth ymysg gweithlu'r Cyngor a chyfleoedd cyflogaeth i drigolion y sir. | Gwella bywydau gwaith a chyfleoedd cyflogaeth gweithwyr ac ymgeiswyr swyddi o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. | Nifer y gweithwyr/ ymgeiswyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.<br><br>Gweithio mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Cyflogeion Ethnig Lleiafrifol i gyflwyno Polisi Gwrth-hiliaeth sy'n cynnwys arweiniad clir ynghylch delio â digwyddiadau hiliol<br><br>Cynnal mentrau fel digwyddiadau recriwtio wedi'u targedu ar gyfer pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn flynyddol.<br><br>Darparu Hyfforddiant Gwrth-hiliaeth ar gyfer ein cyflogeion | **AG:** AD<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategath Dyfodol Gwaith 2022-2027 |
| Cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle | Gwella sgiliau Cymraeg y gweithlu trwy ddarparu a hyrwyddo cyrsiau hyfforddiant sgiliau Cymraeg | Nifer y rhai sy'n mynychu cyrsiau iaith Gymraeg | **AG:** Hyfforddiant, Datblygu a Dysgu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategath Dyfodol Gwaith 2022-2027**;** *a* Strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg 2023-2028 |
| Cynyddu nifer y cyflogeion sy'n siarad Cymraeg | Cynyddu nifer y cyflogeion sy'n teimlo eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle i wella'r gwasanaeth a gyflwynir | Nifer y cyflogeion sy'n mynychu'r cyrsiau hyfforddiant Cymraeg<br><br>Nifer y cyflogeion sy'n cofnodi eu sgiliau Cymraeg | **AG:** Hyfforddiant, Datblygu a Dysgu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategath Dyfodol Gwaith 2022-2027; a Strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg 2023-2028 |

**Blaenoriaeth 4.1 *(parhad)*** Bod ein gweithlu'n adlewyrchu ein cymunedau amrywiol ac yn cael ei gefnogi gan ein polisïau

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn datblygu arweiniad ynghylch Croestoriadaeth er mwyn cydnabod bod gan bawb eu profiad unigryw eu hunain o wahaniaethu a gormes, ac yn sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth i bopeth sy'n gallu gwthio pobl i'r cyrion (CFD) | Cydnabod bod nodweddion lluosog yn ffurfio profiadau a chyfleoedd unigol yn wahanol. | Nifer o weithiau mae canllawiau Intersectionality yn cael eu lawrlwytho o Gyfeirlyfr Ymarfer.<br><br>Sampl o asesiadau ar draws Gofal Cymdeithasol Plant a Gofal Cymdeithasol i Oedolion i ystyried sut mae canllawiau'n cael eu defnyddio'n ymarferol. | **AG:** Diogelu<br>**AGwl:** Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac Iechyd; *a* Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>**Cynllun:** Canllawiau Rhyngtoriadol Drafft i ddod i rym Hydref 2024 |
| Yn ysbryd Cyfamod y Lluoedd Arfog, byddwn yn edrych ar ehangu ein cynllun gwarantu cyfweliad i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog er mwyn cynnwys milwyr sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, milwyr wrth gefn a'u priod, ac yn sicrhau y gweithredir hynny ar draws y cyngor. | Bydd y cynllun Gwarantu Cyfweliad yn cael ei ddiweddaru a'i gyhoeddi, a bydd rheolwyr sy'n recriwtio yn ymwybodol o'r cynllun. | Nifer yr aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog sy'n cael cyfweliad am swyddi oddi mewn i'r cyngor. | **AG:** Polisi Corfforaethol, Perfformiad ac Ymgysylltu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol / Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog<br>**Cynllun:** aml |
| Byddwn yn ceisio sicrhau statws Gwobr Aur i Gyngor Castell-nedd Port Talbot yng Nghynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn (ERS) | Bydd Cyngor CNPT derbyn cydnabyddiaeth fel cyflogwr sy'n addunedu neu'n dangos cefnogaeth i gymuned y lluoedd arfog ac amddiffyn, neu'n eiriol drostynt, ac yn sicrhau bod ei werthoedd yn cyd-fynd â Chyfamod y Lluoedd Arfog. | Cyflawni statws gwobr aur ERS erbyn 2028 | **AG:** Polisi Corfforaethol, Perfformiad ac Ymgysylltu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol / Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog<br>**Cynllun:** aml |

**Blaenoriaeth 4.2 –** Ein bod yn cynorthwyo ac yn cefnogi aelodau o'n cymunedau i sicrhau cyflogaeth (NEWYDD)

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn darparu prentisiaethau, hyfforddiaethau a chyfleoedd profiad gwaith o ansawdd uchel yng ngweithlu'r cyngor, gan gynnwys cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. | Bydd ein pobl ifanc wedi'u paratoi'n well i ymuno â byd gwaith a byddant yn fwy deniadol i gyflogwyr yn y dyfodol. | Nifer y:<br>• Prentisiaethau<br>• Hyfforddiaethau<br>• Cyfleoedd profiad gwaith<br><br>Nifer y cymwysterau cydnabyddedig a gyflawnir gan y rhai sy'n dilyn cynlluniau prentisiaeth ffurfiol.<br>Y nifer ar gynlluniau prentisiaeth ffurfiol sy'n sicrhau cyflogaeth gyda'r Cyngor | **AG:** Hyfforddiant, Datblygu a Dysgu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategath Dyfodol Gwaith 2022-2027 |
| Byddwn yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET) i'w helpu i ddatblygu profiad a sgiliau er mwyn ymuno â byd cyflogaeth | Bydd mwy o bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET) wedi'u paratoi'n well i ymuno â byd gwaith | Nifer y bobl ifanc NEET sy'n derbyn cyfleoedd i ddatblygu profiad a sgiliau<br>Nifer y bobl ifanc NEET sy'n dechrau gweithio | **AG:** Gwasanaeth Ieuenctid CnPT<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar / Newid yn yr Hinsawdd a Thwf Economaidd<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu Plant a Phobl Ifanc 2022-2025 |
| Yn ysbryd Cyfamod y Lluoedd Arfog, byddwn yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc o Gadetiaid y Lluoedd Arfog i'w helpu i ddatblygu profiad a sgiliau er mwyn ymuno â byd cyflogaeth. | Bydd Cadetiaid y Lluoedd Arfog wedi'u paratoi'n well i ymuno â byd gwaith | Nifer cadetiaid y lluoedd arfog sy'n cael profiad gwaith gyda'r cyngor | **AG:** Polisi Corfforaethol, Perfformiad ac Ymgysylltu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol / Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog<br>**Cynllun:** aml |

**Blaenoriaeth 4.2 *(parhad)* –** Ein bod yn cynorthwyo ac yn cefnogi aelodau o'n cymunedau i sicrhau cyflogaeth (NEWYDD)

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG) Arwein Gwleidyddol (AGwl) Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn darparu sesiynau hyfforddiant/sgiliau hygyrch i alluogi pobl ifanc ac oedolion i wella eu sgiliau neu dderbyn hyfforddiant sgiliau. | Bydd gan fwy o bobl ifanc ac oedolion sgiliau ychwanegol i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith neu ddechrau gweithio | Nifer y bobl ifanc ac oedolion sy'n ymuno â'n cyrsiau hyfforddiant<br><br>Nifer y bobl ifanc ac oedolion sy'n cael gwaith o ganlyniad i hyfforddiant sgiliau ychwanegol | **AG:** Cyflogadwyedd a Sgiliau<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar / Newid yn yr Hinsawdd a Thwf Economaidd |

**Blaenoriaeth 4.3** Bod ein Bylchau Cyflog rhwng y Rhywiau yn lleihau

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG) Arwein Gwleidyddol (AGwl) Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn rhoi sylw i'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor trwy'r camau gweithredu a ddisgrifir yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywiol a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chwarae Teg trwy Gynllun Cyflogwyr Chwarae Teg | Y nod, yn y pen draw, yw dileu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor. | Rydym yn monitro hyn trwy'r Adroddiad Blynyddol ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau a'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb mewn Cyflogaeth | **AG:** AD<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategath Dyfodol Gwaith 2022-2027 |

**Blaenoriaeth 4.3 *(parhad)*** Bod ein Bylchau Cyflog rhwng y Rhywiau yn lleihau

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn adolygu cynllun mentora gyrfa 'NPT Ment2Be' ar gyfer menywod sy'n derbyn tâl isel, gan roi ystyriaeth i'r adborth a ddarparwyd gan y garfan gychwynnol. | Nod y cynllun hwn yw helpu'r menywod sy'n derbyn tâl isel yn y gweithlu i gamu ymlaen yn eu gyrfa ond byddwn yn ei hyrwyddo i grwpiau a nodweddion gwarchodedig eraill | Byddwn yn dangos cynnydd trwy'r data ynghylch recriwtio a chyflogau.<br><br>Byddwn hefyd yn mesur data ansoddol trwy gasglu adborth oddi wrth y mentoriaid a'r rhai sy'n cael eu mentora a'r nifer sy'n rhan o'r cynllun. | **AG:** AD<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategath Dyfodol Gwaith 2022-2027 |
| Byddwn yn parhau i gyflwyno ffurflenni cais dienw yn ein proses recriwtio. | Y nod yw dileu rhagfarn yn ein proses recriwtio. | Byddwn yn monitro hyn trwy'r data recriwtio yn yr adroddiad blynyddol ar Gydraddoldeb. | **AG:** Polisi Corfforaethol, Perfformiad ac Ymgysylltu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategath Dyfodol Gwaith 2022-2027 |



# Cyfranogiad

**sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb, a bod pobl a chymunedau'n gallu dylanwadu'n well ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw**

**Blaenoriaeth 5.1** Bod ein gwasanaethau - digidol a thraddodiadol - yn hygyrch i bawb

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru ein gwefan yn barhaus i wella ei hygyrchedd | Bydd holl gynnwys y wefan yn fwy hygyrch, gan ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr gyrchu'r cynnwys mae arnynt ei angen ac ymgysylltu ag ef, gan leihau'r cyswllt trwy sianeli annigidol.<br><br>Cydymffurfiaeth â safon AA o leiaf, sef y safon y mae'n rhaid i bob gwefan sector cyhoeddus gydymffurfio â hi. | Byddwn yn defnyddio arfer gorau o ran offer hygyrchedd, megis Silktide, i fonitro materion hygyrchedd ar ein gwefan, ac yn parhau i ddiweddaru ein gwefan er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni'r safon hon. Mae Silktide yn ein gosod ymhlith yr 20 o wefannau Cyngor gorau yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd o ran hygyrchedd. Mae'r mesuriadau penodol ar gyfer adroddiadau corfforaethol yn cynnwys:<br>• Sgôr Bodlonrwydd Defnyddwyr Gwefan gorfforaethol CnPT<br>• Sgôr cydymffurfiaeth hygyrchedd WCAG (Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe) o gymharu â'r safon 'AA'<br>• Sgôr Cynnwys gwefan CnPT (Ansawdd y cynnwys ar y wefan) | **AG:** Gwasanaethay Digidol<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategaeth Data a Thechnoleg Ddigidol (DDaT) |

**Blaenoriaeth 5.1 *(parhad)*** Bod ein gwasanaethau - digidol a thraddodiadol - yn hygyrch i bawb

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn teithio i fannau ar draws y fwrdeistref sirol i sicrhau bod rhwystrau o ran trafnidiaeth a chyfarpar TGCh yn cael eu goresgyn yn achos y rhai sydd heb fynediad uniongyrchol. | Mwy o gyfranogiad oherwydd bod llai o rwystrau | Nifer y bobl sy'n dod i sesiynau/weithdai galw heibio<br>Rhestrau presenoldeb, ffurflenni adborth, astudiaethau achos | **AG:** Dysgu Oedolion yn y gymuned<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol / Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynlluniau Cyflenwi Dysgu Oedolion |
| Bydd y Llysgennad Cynhwysiad Digidol yn cwblhau ymarferiad i fapio'r cyflwyniad presennol a'r bylchau a nodwyd | Dealltwriaeth drylwyr o'r anghenion mewn cymunedau | Adroddiad wedi'i gwblhau | **AG:** Dysgu Oedolion yn y gymuned<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Cynlluniau Cyflenwi Dysgu Oedolion |
| Byddwn yn cyflwyno Cynllun Gweithredu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd | Bydd ein cymunedau'n fwy gwybodus ac yn ymwneud mwy â democratiaeth leol | Cynnydd yn erbyn camau gweithredu Cynllun Cyfranogiad y Cyhoedd erbyn 2027 | **AG:** Polisi Corfforaethol, Perfformiad ac Ymgysylltu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus 2023-2027 |
| Byddwn yn sicrhau bod y gwasanaethau y mae'r cyngor yn eu darparu i Gymuned y Lluoedd Arfog o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog ar gael ar-lein, ond hefyd dros y ffôn a thrwy e-bost trwy Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog (AFLO), a thrwy eu cyfeirio ymlaen at y wefan a rhif ffôn Porth y Cyn-filwyr. | Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf ar gael yn hygyrch ar sianeli'r cyngor. | • Gwybodaeth wedi'i diweddaru ar y tudalennau gwe a'r sianeli eraill perthnasol.<br>• Dadansoddi'r tudalennau gwe perthnasol<br>• Nifer y negeseuon e-bost a'r galwadau y mae'r AFLO yn delio â nhw<br>• Dadansoddi'r postiadau perthnasol ar y cyfryngau cymdeithasol. | **AG:** Polisi Corfforaethol, Perfformiad ac Ymgysylltu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol / Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog<br>**Cynllun:** aml |

**Blaenoriaeth 5.1 *(parhad)*** Bod ein gwasanaethau - digidol a thraddodiadol - yn hygyrch i bawb

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn ymgymryd â darn o waith sy'n canolbwyntio ar 'Amrywiaeth mewn Democratiaeth', trwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen penodol. | Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth wedi'i adolygu a'i ddiweddaru.<br><br>Ymrwymiad cyhoeddus pendant gan y cyngor i wella amrywiaeth. | Bydd y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth, sy'n cynnwys mesurau CAMPUS, yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cyngor a bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn ei fonitro yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt. | **AG:** Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd<br>**AGwl:** Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd<br>**Cynllun:** Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth |
| Byddwn yn ystyried ffyrdd o gyfathrebu'n fwy effeithiol â'n gwahanol gymunedau, e.e. y cyfryngau cymdeithasol a phobl ifanc, defnyddio côdau QR a fideos ac ati ar gyfer pobl sy'n cael trafferth gyda llythrennau a'r gair ysgrifenedig | Byddwn yn cyrraedd gwahanol gymunedau yn well. | Cyfryngau cymdeithasol – Cipolygon ar y platfform perthnasol i fesur y cwmpas, y cliciau, yr argraffiadau ac ati ...<br><br>Pobl ifanc –Cipolygon ar y cyfryngau cymdeithasol i olrhain oed y sawl sy'n edrych ar y cynnwys<br><br>Codau QR – Bydd Google Analytics yn olrhain y defnydd o godau QR (gyda chymorth gan y gwasanaethau Digidol)<br>Gwylio cynnwys – Cipolygon ar y cyfryngau cymdeithasol a dadansoddeg YouTube i fesur sawl gwaith y cawsant eu gwylio ac am ba hyd | **AG:** Cyfathrebu a Marchnata<br>**AGwl:** Cymunedau ac Arweinyddiaeth Strategol<br>**Cynllun:** aml |
| Bydd pob adeilad newydd yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu (Rhan M) | Bydd pob adeilad newydd yn bodloni'r Rheoliad Adeilad. | Bydd adeiladau'n hygyrch i bawb, gyda chyfleusterau priodol | **AG:** Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd<br>**Agwl:** Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chysylltedd<br>**Cynllun:**<br>Canllawiau cynllunio Atodol |

**Blaenoriaeth 5.2** Bydd ein cymunedau'n mwynhau mwy o gydlyniant cymdeithasol a chymunedol

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn parhau i asesu ein hadeiladau a gwneud addasiadau rhesymol er mwyn gwella hygyrchedd | Gwneir gwelliannau ar draws holl adeiladau'r Awdurdod er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb.<br><br>Byddai prosiectau adnewyddu a chynnal a chadw yn ceisio rhoi sylw i faterion hygyrchedd. | Adeiladau sy'n hygyrch i bawb. | **AG:** Eiddo ac Adfywio<br>**AGwl:** Newid yn yr Hinsawdd a Thwf Economaidd<br>**Cynllun:** Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol |
| Byddwn yn cefnogi grwpiau lleol, gan gynnwys Cymdeithas y Gymuned BME a Grŵp LHDTCRhA+ Castell-nedd Port Talbot i ddatblygu gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol | Cynnydd yn nifer y gweithgareddau/digwyddiadau a gynhelir | Nifer y gweithgareddau / digwyddiadau cymunedol a gynhelir | **AG:** Polisi Corfforaethol, Perfformiad ac Ymgysylltu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol / Natur, Twristiaeth a Lles<br>**Cynllun:** Strategaeth Diwylliant 2023 |
| Byddwn yn darparu gwybodaeth a gwasanaeth cyfeirio ar gyfer y rhai sy'n dymuno dysgu Cymraeg a/neu Saesneg | Bydd gwybodaeth am gyrsiau hyfforddiant priodol a chyfleoedd llai ffurfiol ar gael yn fwy hwylus i'n trigolion | Nifer y trawiadau ar y tudalennau perthnasol ar ein gwefan. | **AG:** Polisi Corfforaethol, Perfformiad ac Ymgysylltu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol |

**Blaenoriaeth 5.2 *(parhad)*** Bydd ein cymunedau'n mwynhau mwy o gydlyniant cymdeithasol a chymunedol

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn deall anghenion ein cymuned sy'n heneiddio, yn hwyluso datblygu Strategaeth Heneiddio'n Dda CNPT ac yn cryfhau polisïau er mwyn ymateb i'r anghenion hyn | **Eang**<br>Gallu pobl o bob oed i fyw bywydau iach, diogel a llawn.<br><br>**Yn benodol**<br>• Dealltwriaeth glir o anghenion ein cymuned sy'n heneiddio<br>• Datblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda Castell-nedd Port Talbot<br>• Bydd Egwyddorion Heneiddio'n Dda Sefydliad Iechyd y Byd yn sail ar gyfer polisïau lleol | **Lefel Uchel**<br>• Strategaeth a Chynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda CNPT wedi'u cymeradwyo<br>• Cynnydd yn nifer y polisïau lleol sy'n adnabod ac yn ymateb i anghenion ein cymunedau trwy sicrhau bod unigolion yn gallu heneiddio'n dda.<br>**Eang**<br>• Mwy o unigolion yn teimlo'n fwy gwybodus/wedi'u grymuso<br>• Llai yn teimlo unigrwydd a/neu ynysu cymdeithasol<br>• Unigolion yn dweud eu bod yn teimlo bod eu hiechyd a'u lles yn well<br>• Gwell mynediad at ddolenni trafnidiaeth gyhoeddus neu breifat<br>• Gwell synnwyr o berthyn<br>• Gwell mynediad a chynhwysiad digidol | **AG:** Gwasanaethau Cymorth Cymunedol/ Ymyrryd yn Gynnar ac Atal<br>**AGwl:** Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac Iechyd<br>**Cynllun:** Byw'r bywyd yr hoffech ei fyw - Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion 2023-26 |
| Byddwn yn datblygu dull seiliedig ar hawliau wrth ymdrin â'n gwaith, gan ganolbwyntio ar hawliau plant trwy weithio gyda'r Maer Ieuenctid a'r Cyngor Ieuenctid, ymhlith eraill | Bydd y Cyngor Ieuenctid yn cynnal arolwg blynyddol gyda phobl ifanc ac yn bwydo'r canlyniadau i'r Cabinet. | Nifer y bobl ifanc sy'n cwblhau'r arolwg ac unrhyw gamau gweithredu ar y materion a nodwyd. | **AG:** Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiad a Chyfranogiad<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Chynllun Cyfarwyddiaeth Strategol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes |

**Blaenoriaeth 5.2 *(parhad)*** Bydd ein cymunedau'n mwynhau mwy o gydlyniant cymdeithasol a chymunedol

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn adolygu ein Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ac yn cryfhau ein mecanweithiau ymgysylltu presennol, e.e. gweithgareddau Parhewch i Sgwrsio a Phanel Dinasyddion CnPT, ac yn defnyddio ymatebion i sicrhau bod gwaith llunio polisïau a datblygu gwasanaethau'r Cyngor yn cael ei lywio gan yr hyn sy'n bwysig i bobl | Bydd y Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ddiwygiedig (a'r pecyn offer sy'n cyd-fynd â hi) yn pennu'r safonau gwaith ar gyfer gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu ar draws y cyngor. Bydd hyn yn sicrhau bod yr ymgynghori a'r ymgysylltu yn effeithiol, yn drylwyr, yn gyson ac yn hygyrch er mwyn i bawb yn ein cymunedau gael cyfle i ddweud eu dweud ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.<br><br>Bydd Panel Dinasyddion CnPT yn cael ei adolygu a'i adnewyddu. | Cyhoeddir Strategaeth a phecyn offer Ymgynghori ac Ymgysylltu diwygiedig yn 2024/25<br><br>Cynnydd yn aelodaeth Panel Dinasyddion CnPT<br><br>Bydd Panel Dinasyddion CnPT yn cynrychioli proffil trigolion y fwrdeistref sirol yn agosach o ran lledaeniad daearyddol a nodweddion gwarchodedig. | **AG:** Polisi Corfforaethol, Perfformiad ac Ymgysylltu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus 2023-2027 |
| Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog i helpu i leihau'r teimladau ynysig a'r unigrwydd a deimlir gan lawer pan fyddant yn gadael y gwasanaethau, neu gan aelod o'r teulu pan fydd y sawl sy'n gwasanaethu yn cael ei anfon ar wasanaeth gweithredol neu hyfforddiant | Bydd aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn fwy ymwybodol o'r wybodaeth a'r cymorth perthnasol ac yn cael eu cyfeirio atynt er mwyn lleihau teimladau ynysig ac unigrwydd. | Nifer y bobl o Gymuned y Lluoedd Arfog y mae Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog yn eu cyfeirio at sefydliadau perthnasol er mwyn cael cefnogaeth | **AG:** Polisi Corfforaethol, Perfformiad ac Ymgysylltu<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol / Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog<br>**Cynllun:** aml |

**Blaenoriaeth 5.2 *(parhad)*** Bydd ein cymunedau'n mwynhau mwy o gydlyniant cymdeithasol a chymunedol

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â grwpiau perthnasol i fynd i'r afael â'n hanes cyffredin ac archwilio ffyrdd o fynegi hyn yn well yn ein cymunedau | Byddwn yn defnyddio'r mannau cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli mewn dull mwy creadigol a diwylliannol er mwyn annog cyfranogiad, cynyddu mynediad a hyrwyddo iaith a diwylliant bywiog Cymru, gan gynnwys gweithiau celf cyhoeddus ac arwyddion y tu mewn a'r tu allan i fannau cynnal diwylliannol presennol ac mewn datblygiadau dinesig a masnachol newydd.<br><br>Byddwn yn parhau i ddod â chynnig diwylliannol Cymreig Castell-nedd Port Talbot a'r straeon cyfoes sy'n taro deuddeg ac yn creu cysylltiad â phobl heddiw yn fyw. Byddwn yn defnyddio arwyddion a dehongli rhagorol i helpu holl drigolion y sir i deimlo bod iaith a diwylliant Cymru yn bwysig iddynt ac fel bod pob ymwelydd yn teimlo eu bod wedi ymweld â rhywle sydd â hunaniaeth falch ac unigryw | Canran y targedau a gyflawnwyd yng nghynllun gweithredu'r Strategaeth Diwylliant. | **AG:** Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant<br>**AGwl:** Natur, Twristiaeth a Lles<br>**Cynllun:** Strategaeth Diwylliant 2023 |

**Blaenoriaeth 5.3** Gwneud penderfyniadau

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn datblygu rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer yr aelodau etholedig | Bydd penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth a'r gyfraith yn parhau i gael eu gwneud gan roi ystyriaeth i'r holl ddyletswyddau statudol amrywiol etc. | Nifer yr aelodau sy'n dod i'r sesiynau hyfforddiant | **AG:** Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd<br>**AGwl:** Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd<br>**Cynllun:** Datblygu Aelodau/ Cynllun Hyfforddi |

# Safonau byw

●●●●●●●●

## Gweithio i leihau tlodi a chefnogi byw'n annibynnol

**Blaenoriaeth 6.1** Bydd pobl a chymunedau yn elwa o ymyriadau i liniaru tlodi

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn defnyddio LIFT (offeryn Olrhain Teuluoedd Incwm Isel) i sicrhau y cyfeirir cymorth at y rheiny â'r angen mwyaf. | Bydd pobl yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael a sut mae cael gafael arno. | Nifer y bobl sy'n cael cymorth yn dilyn ymgyrchoedd LIFT<br><br>Gwerth y budd-daliadau a hawlir (lle bydd hynny'n briodol) | **AG:** Polisi Corfforaethol - Trechu Tlodi<br>**AGwl:** Cyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol<br>**Cynllun:** Cynllun Gweithredu Partneriaeth Costau Byw ac Atal Tlodi BGC CnPT (mewn datblygiad) |
| Byddwn yn parhau i gydlynu'r ddarpariaeth Bwyd a Hwyl er mwyn mynd i'r afael â phroblem llwgu yn ystod y gwyliau a helpu'r teuluoedd, y plant a'r bobl ifanc hynny i gael gwyliau haf mwy cadarnhaol. | Rhoddir cyfle i bobl ifanc gael mynediad at weithgareddau hwyl a bwyd am ddim yn ystod gwyliau'r haf. | Nifer yr ysgolion sy'n cynnig y ddarpariaeth bwyd a hwyl.<br><br>Nifer y bobl ifanc sy'n dod i'r ddarpariaeth bwyd a hwyl. | **AG:** Gwasanaeth Ieuenctid CnPT<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT |
| Bydd y gwasanaeth ieuenctid yn cynnig cymorth i bobl ifanc 16-18 oed sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET). | Cynigir cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl ifanc i'w helpu i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hwynebu. | Nifer y bobl ifanc sy'n ymuno â chyflogaeth, addysg neu hyfforddiant | **AG:** Gwasanaeth Ieuenctid CnPT<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar / Newid yn yr Hinsawdd a Thwf Economaidd<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu Plant a Phobl Ifanc 2022-2025 |
| Bydd y gwasanaeth ieuenctid yn cynnig cymorth i bobl ifanc 15-18 oed y nodwyd bod perygl iddynt fod yn ddigartref. | Cynigir cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl ifanc i'w helpu i osgoi'r angen am gymorth gwasanaethau tai a digartrefedd. | Nifer y bobl ifanc sy'n cael cymorth.<br><br>Nifer y bobl ifanc sydd wedi'u paratoi'n well ar gyfer byw'n annibynnol. | **AG:** Gwasanaeth Ieuenctid CnPT<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu Plant a Phobl Ifanc 2022-2025 |

**Blaenoriaeth 6.1 *(parhad)*** Bydd pobl a chymunedau yn elwa o ymyriadau i liniaru tlodi

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Bydd y gwasanaeth ieuenctid yn darparu clybiau ieuenctid yn y gymuned a gweithgareddau datgysylltiedig neu estyn allan i bobl ifanc | Bydd clybiau ieuenctid yn cynnig gweithgareddau rhad neu am ddim i bobl ifanc.<br><br>Bydd clybiau ieuenctid yn cynnig lle cynnes i bobl ifanc mewn ystod o leoliadau. | Nifer y clybiau ieuenctid sydd ar agor<br><br>Nifer y bobl ifanc sy'n mynd i glybiau ieuenctid.<br><br>Nifer y sesiynau datgysylltiedig ac estyn allan. | **AG:** Gwasanaeth Ieuenctid CnPT<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT |
| Helpu teuluoedd i brynu eitemau hanfodol | Bydd teuluoedd yn cael mynediad at eitemau hanfodol | Nifer y ceisiadau grant llwyddiannus | **AG:** Gwasanaethau cymorth i deuluoedd<br>**AGwl:** Gwasanaethau Plant a Theuluoedd/ Tai a Diogelwch Cymunedol<br>**Cynllun:** Cynllun Strategol Gofal Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc 2023-2026 |
| Bydd y Gwasanaeth Gweithio Gyda'n Gilydd yn helpu teuluoedd i wella amgylchedd eu cartref | Bydd teuluoedd yn byw mewn amgylchedd priodol, diogel | Nifer y teuluoedd sy'n llwyddo i gyrraedd y nod | **AG:** Gwasanaethau cymorth i deuluoedd<br>**AGwl:** Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>**Cynllun:** Bwrdd Rhanbarthol Plant a Phobl Ifanc |
| Bod pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ddim yn wynebu anfantais mewn cymdeithas | Helpu pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal i fod yn ariannol annibynnol | Nifer y bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sydd mewn addysg uwch, prentisiaeth a/neu gyflogaeth | **AG:** Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc<br>**AGwl:** Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>**Cynllun:** Cynllun Strategol Gofal Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc 2023-2026 |

**Blaenoriaeth 6.2** Bydd pobl yn elwa o raglenni a chymorth i fyw mor annibynnol â phosibl

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Bydd pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn barod i fyw'n annibynnol.<br><br>Cefnogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol trwy grwpiau a hwylusir gan swyddogion Cyfranogiad ac Ymgysylltiad | Bydd pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn byw bywydau hapus a llawn | Nifer y bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael mynediad at grwpiau byw'n annibynnol | **AG:** Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc<br>**AGwl:** Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>**Cynllun:** Cynllun Strategol Gofal Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc 2023-2026 |
| Bydd pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael llety addas | Bydd pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael llety diogel sefydlog | Nifer y bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n byw'n annibynnol | **AG:** Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc<br>**AGwl:** Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT |
| Byddwn yn cefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu a pharhau i ddarparu ystod gynaliadwy o wasanaethau sy'n ateb y galw, gan alluogi unigolion i aros gartref a pharhau i fod yn annibynnol cyhyd â phosibl gan dderbyn cymorth priodol pan fo angen hynny arnynt | Cefnogir unigolion trwy gynnig mynediad iddynt at wasanaethau perthnasol sy'n caniatáu iddynt aros cyhyd â phosib yn eu cymunedau | Fel rhan o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a lleol, byddwn yn adolygu'r perfformiad yn erbyn yr amcanion cytunedig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n effeithiol | **AG:** Pob Ardal Gwasanaeth Oedolion<br>**AGwl:** Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac Iechyd<br>**Cynllun:** Cynllun y Cyngor ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion 2019 – 2022 |

**Blaenoriaeth 6.2 *(parhad)*** Bydd pobl yn elwa o raglenni a chymorth i fyw mor annibynnol â phosibl

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Bydd y Gwasanaethau Oedolion yn parhau i ddatblygu a chyflwyno Gwirfoddoli Diogel a Iach i bobl 18+ sy'n profi unigrwydd ac ynysu cymdeithasol cronig neu sydd mewn perygl o brofi hynny. | Llai o Ynysu Cymdeithasol a gwelliant mewn llesiant cyffredinol<br><br>Gwell cydlyniant cymunedol<br><br>Llai o ynysu cymdeithasol yn arwain at well deilliannau iechyd a gostyngiad yng nghostau gofal iechyd | Nifer y Gwirfoddolwyr a recriwtiwyd<br><br>Nifer y bobl a gefnogwyd gan Wirfoddoli Diogel a Iach<br><br>Nifer yr Oriau Gwirfoddoli a ddarparwyd<br><br>Nifer y grwpiau cymdeithasol a gefnogwyd gan Wirfoddolwyr Diogel a Iach | **AG:** Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion<br>**AGwl:** Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac Iechyd<br>**Cynllun:** Cynllun y Cyngor ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion 2019 – 2022 |
| Byddwn yn parhau i ddatblygu a chyflwyno ystod o wasanaethau technoleg gynorthwyol i gefnogi pobl 18+ i gyflawni deilliannau personol, cefnogi cynnydd a hyrwyddo dull gweithredu digidol yn gyntaf lle bydd hynny'n briodol. | Bydd modd i bobl ddefnyddio'r technolegau i aros yn ddiogel yn eu cartref am gyfnod hwy.<br><br>Llai o Ynysu Cymdeithasol a gwelliant mewn llesiant cyffredinol oherwydd cyfathrebu/rhyngweithio a hwylusir gan dechnoleg<br><br>Helpu gofalwyr/teuluoedd i gefnogi eu hanwyliaid, gan leihau'r straen ar ofalwyr.<br><br>Ehangu adnoddau'r gwasanaethau gofal/cymorth<br><br>Lleihau, arafu neu atal anghenion gofal pobl hŷn ac oedolion ag anableddau rhag gwaethygu | Nifer y bobl sy'n defnyddio technolegau cynorthwyol i gefnogi eu hannibyniaeth.<br><br>Nifer y pecynnau gofal sy'n cael eu gwella/galluogi trwy dechnoleg.<br><br>Nifer y bobl (gan gynnwys staff) sy'n gwybod mwy am sut gall technolegau digidol gefnogi annibyniaeth a diogelwch yn y cartref | **AG:** Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion<br>**AGwl:** Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac Iechyd<br>**Cynllun:** Cynllun y Cyngor ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion 2019 – 2022 |
| Byddwn yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc wella eu sgiliau byw'n annibynnol trwy gefnogi rhieni ifanc | Bydd modd i rieni ifanc gael cymorth a sesiynau gwaith ieuenctid am ddim, a fydd yn cynyddu ymwybyddiaeth o faterion cysylltiedig â thai a chyflogaeth | Nifer y rhieni ifanc a gefnogir.<br><br>Nifer y rhieni ifanc sy'n dweud eu bod nhw bellach yn gwybod ble mae cymorth a chefnogaeth ar gael. | **AG:** Gwasanaeth Ieuenctid CnPT<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar / Newid yn yr Hinsawdd a Thwf Economaidd<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT; *a* Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu Plant a Phobl Ifanc 2022-2025 |

**Blaenoriaeth 6.3** Bod cysylltiadau trafnidiaeth yn cael eu cynnal neu eu gwella

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn cefnogi mentrau cludiant cymunedol | Mae ein his-adran Cludo Teithwyr yn parhau i gefnogi gweithredwyr cludiant cymunedol a chwilio am gyfleoedd newydd i ehangu eu gwasanaethau.<br><br>Cynyddu'r dewis o drafnidiaeth i drigolion lleol. | Adolygiad blynyddol a monitro'r cynlluniau cludiant cymunedol a gyflwynir. | **AG:** Peirianneg a Thrafnidiaeth<br>**AGwl:** Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chysylltedd<br>**Cynllun:** Cynllun Trafnidiaeth Lleol. |
| Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â swyddogion trafnidiaeth rhanbarthol ar waith trafnidiaeth rhanbarthol gyda'r Cydbwyllgor Corffloraethol | Dod â nifer o bartneriaid ynghyd i ddylunio a gweithredu rhwydwaith trafnidiaeth newydd sy'n gwasanaethu anghenion trigolion, ymwelwyr, a busnesau.<br>Canlyniad hynny fydd Masnachfraint Bysiau newydd ar gyfer De-orllewin Cymru erbyn gwanwyn 2026.<br>Gwelliannau pellach i Rwydwaith Teithio Llesol y Cyngor er mwyn integreiddio â'r hybiau trafnidiaeth.<br>Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol 2025-2030. | Prosiect hirdymor fydd hwn dros nifer o flynyddoedd. Mae gwaith yn parhau gyda'r partneriaid rhanbarthol i edrych ar gynlluniau gyda Thrafnidiaeth Cymru a fydd yn gwella cysylltiadau trafnidiaeth ar hyd y rhanbarth.<br>Cyflwynir adroddiadau blynyddol i'r Cabinet i fonitro'r cynnydd o ran Teithio Llesol a chyflwyniad Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a Rhwydwaith Bysiau Lleol trwy'r Fasnachfraint. | **AG:** Peirianneg a Thrafnidiaeth<br>**AGwl:** Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chysylltedd<br>**Cynllun:** Cynllun Datblygu Lleol (2011-2026) CnPT; Cynllun Corfforaethol Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru 2023-2028; Cynllun Trafnidiaeth Lleol; *a* Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol 2025-2030. |
| Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda LlC a Trafnidiaeth Cymru ar y rhwydwaith newydd trwy fasnachfraint a arweinir gan LlC | Gwella'r rhwydwaith bysiau, gweithredu llwybrau bysiau sy'n gweithio i'n cymunedau lleol. | Llunnir diweddariadau chwarterol ar gyfer Llywodraeth Cymru | **AG:** Peirianneg a Thrafnidiaeth<br>**AGwl:** Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chysylltedd<br>**Cynllun:** aml |

**Blaenoriaeth *(parhad)*** 6.3 Bod cysylltiadau trafnidiaeth yn cael eu cynnal neu eu gwella

| Cam Gweithredu | Deilliant | Sut byddwn yn ei fesur? | Arwain Gwasanaeth (AG)<br>Arwein Gwleidyddol (AGwl)<br>Cynlluniau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Yn achos priffyrdd lle mae cynnal a chadw ac adnewyddu strwythurau yn flaenoriaeth, neu lle cynllunnir llwybrau teithio llesol a llwybrau diogel mewn cymunedau, bydd y Cyngor yn ceisio rhoi sylw ar yr un pryd i unrhyw faterion hygyrchedd lleol, megis yr angen am groesfannau is a rampiau. | Hyrwyddo teithio llesol a datblygu rhwydwaith llwybrau cerdded a beicio'r Cyngor ymhellach gan sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl hŷn a phobl anabl.<br><br>Gwella hygyrchedd i bawb. Sicrhau bod datblygiadau newydd yn hygyrch.<br><br>Gweithio gyda busnesau Canol Tref i wella hygyrchedd o'r briffordd. | Gwelliannau i'r rhwydweithiau cerdded.<br><br>Cyflawnir yr holl welliannau yn unol â'r canllawiau Teithio Llesol.<br><br>Bydd diweddariadau chwarterol Cynllun Cyflawni Teithio Llesol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer Llywodraeth Cymru. | **AG:** Peirianneg a Thrafnidiaeth<br>**AGwl:** Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chysylltedd<br>**Cynllun:** Cynllun Datblygu Lleol (2011-2026) CnPT; Cynllun Gwella Hawliau Tramwy - ROWIP (2020 - 2030); Cynllun Cyflawni Teithio Llesol CnPT 2025-2030 *a'r* Cynllun Teithio Llesol. |
| Byddwn yn darparu trafnidiaeth ar gyfer gofalwyr ifanc i'w galluogi i gyrraedd y grŵp gofalwyr ifanc. | Cynigir cludiant am ddim i bobl ifanc a'u teuluoedd i hwyluso cyrraedd y grŵp gofalwyr. | Nifer y gofalwyr ifanc sy'n defnyddio'r cludiant am ddim. | **AG:** Gwasanaeth Ieuenctid CnPT<br>**AGwl:** Addysg a Blynyddoedd Cynnar / Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac Iechyd<br>**Cynllun:** Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc CnPT |